www.ecorwyddfa.co.uk

£1

RHIF 534
Mai
2025

# ECO’r Wyddfa

# Buddug

Roedd digwyddiad Gwobrau’r Selar yn ôl eleni am y tro cyntaf ers Chwefror 2020, gyda gig cofiadwy yng nghanolfan yr Arad Goch yn Aberystwyth.

Cafodd y gantores ifanc o Frynrefail, Buddug, noson i’w chofio yng Ngwobrau’r Selar yn Aberystwyth fis Mawrth. Daeth yn brif enillydd Gwobrau’r Selar drwy gipio pedair gwobr:

Cân Orau: ‘Unfan’
Artist Unigol Gorau
Band neu Artist Newydd Gorau
Fideo Cerddoriaeth Gorau

Buddug oedd yn cloi’r noson oedd yn cynnwys perfformiadau gan lu o artistiaid ifanc mwyaf cyffrous Cymru. Mae Buddug wedi mynd o nerth i nerth dan adain label Recordiau Côsh ers rhyddhau ei sengl gyntaf, ‘Dal Dig’ ar ddiwedd 2023. Gwelodd 2024 ddwy sengl arall yn glanio ganddi, ynghyd â llwyth o berfformiadau byw cofiadwy ac mae’n amlwg ei bod wedi creu argraff ar y gynulleidfa oedd wedi pleidleisio drosti yn y categorïau amrywiol.

Bu hefyd yn perfformio yn Llundain yn ddiweddar fel rhan o brosiect y BBC - *‘BBC Introducing,’* sydd yn cynnig profiadau ac yn rhoi llwyfan a chefnogaeth i artistiaid a bandiau ifanc, newydd. Heb os, mae dyfodol disglair o’i blaen, ac edrychwn ymlaen at ddilyn ei gyrfa.

Dyma Buddug a’r band yn perfformio mewn noson *BBC Introducing* yng Nghlwb Lower Third, Soho, Llundain ddechrau Ebrill. Roedden nhw yno ar ran prosiect Gorwelion BBC Cymru.



Mae ei dyddiadur yn prysur lenwi, a bydd cyfle i weld Buddug yn perfformio yn *Focus Wales*, Wrecsam ar y 9fed, yn ogystal â nos Sadwrn 17eg Mai, ble bydd yn cefnogi Brigyn, hogia ardal bro’r Eco wrth gwrs, o Benisarwaun, mewn noson arbennig yn Galeri, Caernarfon. Mae Brigyn yn dathlu 20 mlynedd eleni ers dechrau fel band, felly mi fydd hi’n noson arbennig yng nghwmni artistiaid a cherddorion talentog bro’r Eco.

**(Diolch i Geraint Thomas am ganiatad i ddefnyddio’r 2 lun)**




**Buddug gyda’i gwobrau a dderbyniodd mewn noson arbennig yn Aberystwyth ar Ddydd Gŵyl Dewi. (Llun gan Gwobrau’r Selar)**





Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi’n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## Yn y rhifyn hwn:


- Gwirfoddolwyr y flwyddyn: Tîm Achub Mynydd Llanberis – **tud. 5**
- Fandaliaeth Ynni Padarn Peris – **tud. 5**
- Garddio Mai – **tud. 22**
- Awr Fawr Clwb Rygbi Caernarfon – **tud. 26**




15



9

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Os hoffai rywun ymgymryd â'r swydd byddem yn falch iawn o glywed ganddyn nhw.

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk


# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

£50 Er Cof am Euron Wyn Davies, Bod Elan, Cwm-y-Glo
£40 Dienw (Llanrug)
£10 Nant a Tegid Roberts, Llanrug
£10 Gwerfyl Mc Carthy, Childwell
£10 Meirwen Lloyd, Llanrug
£10 H Evans Munro, Llanrug
£5 Emyr Wyn Jones, Bethel




SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru


## Digwyddiadur Mai

**Dydd Sul, 4ydd Mai** - 3.00pm, Eglwydd Llanddeiniolen. Gwasanaeth Diolchgarwch i ddathlu 80 mlynedd o heddwch ers yr Ail Ryfel Byd.

**Nos Fercher, 14eg Mai** - 6.00pm. Miri Mai. Caeau'r Ysgol, Penisarwaun.


Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs


## CEUNANT

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau i Nia Jones (Glasfryn gynt), a Rhys Williams ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi eich dau i'r dyfodol.

**Symud cartref**
Pob dymuniad da i deulu Hamer, Bron Hafod gynt, yn eu cartref newydd yn Waunfawr.


E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202


Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
**Hefin Jones**, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mehefin | 9 Mai | 23 Mai |
| Gorffennaf | 13 Mehefin | 27 Mehefin |
| Awst a Medi | 11 Gorffennaf | 25 Gorffennaf |

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Beibl.** Mae'r SPCK (Y Gymdeithas er Hyrwyddo Gwybodaeth Gristnogol) yn adrodd fod gwerthiant Beiblau wedi cynyddu er fod gostyngiad yn y niferoedd sy'n mynychu addoldai. Mae'r Gymdeithas Feiblaidd hefyd yn adrodd fod gwerthiant fersiwn ieuenctid y "Good News Bible" wedi dyblu ers 2021.
- **Brasterberg.** Tybed a'i dyna'r enw Cymraeg am 'fatberg'? Dyna'r term a ddefnyddir am wastraff sy'n cynnwys braster, saim ac olew wedi cyfuno sy'n peri trafferthion difrifol mewn systemau carthffosiaeth. Bu'n rhaid gwaredu y mwyaf erioed i'w ganfod yn Awstralia – dros 30 tunnell o fraster wedi casglu'n solet yn un o garthffosydd Gorllewin Awstralia.
- **Pen-blwydd.** Dwy wraig yn byw y drws nesaf i'w gilydd mewn stryd yn Rhydychen yn dathlu eu penblwyddi yn 101 oed ar yr un diwrnod. Maent wedi bod yn dymuno llwnc-destun a phen-blwydd hapus i'w gilydd dros glawdd yr ardd ers 1986.
- **233.** Dyna'r nifer o flynyddoedd y mae siopau W.H.Smith wedi bod ar strydoedd ein trefi a'n dinasoedd. Bellach, bydd yr enw yn diflannu oddi ar ein strydoedd wedi i'r cwmni gael ei werthu i Modella Capital am £76 miliwn. Ond, bydd yr enw a'r siopau yn parhau mewn gorsafoedd trên a meysydd awyr.
- **Meddyg.** Mae tref Julia Creek, talaith Queensland, Awstralia yn cynnig cyflog o bron i £331,000 y flwyddyn i gael meddyg yno. Mae'r meddyg diwethaf wedi ymddeol ar ôl tair blynedd yn gwasanaethu cleifion yn y dref anghysbell a'r ardal gylchynnol. Cyn 2022 bu'r dref heb feddyg am 16 mlynedd. Mae'r ysbyty agosaf dair awr i ffwrdd, a'r ddinas agosaf daith saith awr i ffwrdd.
- **Coed unig.** Mae coed unigol nad ydynt yn rhan o goedwig na choedlan wedi eu mapio am y tro cyntaf yn Lloegr, a hynny gan ddefnyddio'r dechnoleg fodern fwyaf diweddar, yn cynnwys laser a lloerennau. Y gobaith yw y gellir 'cysylltu' y coed unigol hyn â'r goedlan agosaf drwy blannu mwy o goed, a hybu bio-amrywiaeth a chyfoethogi bywyd gwyllt yr ardaloedd.
- **Ffens.** Mae traeth tywodlyd yn Lowestoft, swydd Sussex, yn cael ei ffensio i warchod safleoedd nythu adar fel y môr-wennol fach, pïod môr a môr-hedydd. Bydd y ddwy ardal sy'n cael eu defnyddio gan yr adar hyn yn cael eu gwarchod rhag aelodau'r cyhoedd a'u cŵn. Daw'r ffensys i lawr wedi i'r cyw olaf adael y nyth ganol yr haf.
- **Glaw.** Mae ynysoedd Paros a Mykonos yng ngwlad Groeg yn ceisio paratoi ar gyfer y tymor gwyliau er gwaethaf difrod sylweddol a achoswyd gan gyfanswm mis o law mewn dim ond tair awr.

## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Mawrth gan ein llywydd Pat Jones. Darllenwyd llythyr y mis a rhoddwyd croeso i Margaret Lloyd Jones, Cadeirydd y Ffederasiwn atom fel ein Cynghorydd yn ein Cyfarfod Blynyddol. Balch oeddem hefyd o groesawu dwy aelod newydd atom. Cawsom adroddiad ariannol gan ein Trysorydd, Vera Price a phawb yn llawen o ddeall fod y coffrau yn iach. Darllenwyd adroddiad blynyddol y gangen gan ein hysgrifenyddes, Carol Houston a oedd yn amlinellu yr holl weithgareddau diddorol a'r teithiau fwynhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Diolchodd y Llywydd i'r swyddogion am eu gwaith drwy'r flwyddyn aeth heibio a thalwyd gwerthfawrogiad i'r holl aelodau gan Margaret Lloyd Jones. Cafwyd adroddiad ganddi hefyd am weithgareddau y Ffederasiwn a'r cynlluniau sydd ar y gweill yn ystod y flwyddyn hon. Symudwyd ymlaen i ethol swyddogion a chytunwyd fod y rhai presennol yn parhau yn eu swyddi.

Yn dilyn aethpwyd ymlaen i groesawu Freda Macdonald gyda ei harddangosfa goginio gyda Thermomix. Mae'r dull o ddefnyddio Thermomix yn gwneud coginio bwyd ffres yn hawdd a hwylus drwy fod yr holl gamau yn defnyddio un teclyn yn unig – pwyso, torri, cyfuno, cymysgu, stemio a llawer mwy. Cafwyd arddangosfa sut i baratoi cawl pys a salad ffres a phawb yn cael cyfle i flasu'r prydau. Roedd gweithio gyda Thermomix hefyd yn arbed llawer o waith golchi celfi yn y gegin.

Diolchodd Anita Long ar ran yr aelodau am yr arddangosfa wych a gafwyd.

Estynwyd croeso arbennig hefyd i saith o aelodau o gangen Dolwyddelan a oedd wedi ymuno ar y noson ar gyfer cystadleuaeth Boccia. Mwynhaodd pawb y cystadlu a'r amser hwyliog dreuliwyd a oedd dan ofal Carol Houston. Cafwyd paned a theisen ar y diwedd a gair o ddiolch am y croeso gan Alison Richmond o Ddolwyddelan am noson arbennig o hwyliog a hapus. Cangen Dolwyddelan oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth ac estynwyd gwahoddiad i gangen Brynrefail ymweld â Dolwyddelan am ornest arall yn y dyfodol.

Edrychir ymlaen am ein Cyfarfod Blynyddol yn ystod mis Mawrth ynghyd ag Arddangosfa Goginio.

## LLANDDEINIOLEN

**Eglwys Sant Deiniol**
Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig o'r Cymun Bendigaid ar 6ed Ebrill i'n harwain at Yr Wythnos Fawr dan arweiniad y Ficer y Canon Naomi Starkey gyda Naomi Woods yn cyflwyno neges Y Groes mewn dull effeithiol a bendithiol i bawb oedd yn yr addoliad.

Darparwyd lluniaeth ar y terfyn gyda theisennau croes a chafodd pawb gyfle i gymdeithasu.

Bydd y Gwasanaeth nesaf ar 4ydd o Fai am 3:00pm. Bydd hwn yn wasanaeth arbennig o ddiolchgarwch i Ddathlu 80 mlynedd o Heddwch ers yr Ail Ryfel Byd.


Mae beddrodau ein bechgyn o Blwyf Llanddeiniolen sydd yn y fynwent yn cael eu trin yn flynyddol gan Gomisiwn y Beddrodau Rhyfel. Gobeithir ymweld â hwy ar derfyn y Gwasanaeth. Buasai yn hyfryd cael cynulliad teilwng yn yr Eglwys i gydnabod ein gwobr ni o Heddwch o'u haberth hwy.

# HEDDWCH

GWASANAETH DIOLCHGARWCH I DDATHLU

80fed MLYNEDD O HEDDWCH ERS YR AIL RYFEL BYD

VE a VJ



3 o'r gloch, MAI 4ydd

CROESO I BAWB

AVW Advanced Vehicle Workshop
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# Ysgol Brynrefail










**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i gorau Merched a Bechgyn am ennill yn yr Eisteddfod Sir dros 15 oed – Parc Margam amdani, pob lwc! Da iawn hefyd i'r grŵp llefaru blwyddyn 7,8 a 9 am gael ail.

**Dysgu am Antarctica**
Mae disgyblion Blwyddyn 8 wedi bod yn dysgu am Antarctica yn eu gwersi Dyniaethau a chawsant gyfle i anfon eu cwestiynau at wyddonydd a oedd ar alldaith *Homeward Bound 8* i Antarctica ar gyfer Menywod mewn STEMM. Diolch yn fawr i Professor Emily Cross am ateb eu cwestiynau ac am roi mewnwelediad diddorol ac ysbrydoledig inni ar fywyd gwyddonydd yn Antarctica.



**Gwobr Dug Caeredin**
Mae criw Dug Caeredin yr ysgol wedi bod yn brysur yn ymarfer eu Alldaith Arian Ysgol Brynrefail '25. Diwrnodau prysur i Emily, Olwen, Jonas, Morgan, Deri, Wil a Hannah – da iawn chi!







**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i garfanau dan 16 a dan 18 Pel-Rwyd yr ysgol fuodd lawr yn cystadlu yn Nhwrnament Cenedlaethol Cymru yn Sir Benfro mis Mawrth. Y ddau dîm wedi cyrraedd y rowndiau chwarteri, gyda perfformiadau cryf a phawb wedi chwarae'n wych! Mae'r Adran Addysg Gorfforol yn falch iawn ohonoch. Diolch yn fawr i Teithiau Menai a Jones Pizza am noddi'r genethod.

Llongyfarchiadau mawr i fechgyn tîm pêl-droed blwyddyn 7 Pencampwyr Pêl-droed Gwynedd! Yn ogystal maent wedi ennill gem cyn-derfynol Cwpan Cymru yn erbyn Ysgol Trallwng wrth ennill 4-1. Ymlaen a nhw i Ffeinal Cwpan Cymru yn mis Mai – pob lwc mawr fechgyn!



Dyma rhai o ddisgyblion yn mwynhau sesiwn blasu sgïo yn Chill Factore Manceinion. Sesiwn i adeiladu eu hyder a rhoi blas iddynt cyn y daith sgïo i Norwy yn ystod Pasg 2026.



# Tîm Achub Mynydd Llanberis

**Enillydd gwobr Dewi Sant Llywodraeth Cymru yn ei chategori 'Gwirfoddoli' 2025**



(Bari Davies, Eluned Morgan, Gruff Owen, Cathryn Cummings (Swyddog Wasg TAMLl), Simon Verspeak, Richard Beech, Robert Booth)

Mae Tîm Achub Mynydd Llanberis yn sefydliad achub mynydd hollol wirfoddol, a sefydlwyd yn 1965 i wasanaethu ar lethrau'r Wyddfa a mynyddoedd cyfagos sydd yn ardal Yr Wyddfa. Mae'r tîm achub mynydd yn darparu cymorth brys i'r rhai sy'n cael eu hunain mewn perygl neu'n mynd i drafferthion wrth gerdded, dringo neu fynydda yn yr ardal.

Ar y 27ain Fawrth 20025 fe wahoddwyd Aelodau Tîm Achub Mynydd Llanberis i seremoni wobrwyo Dewi Sant gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Roedd y Tîm Achub wedi cael ei enwebu oherwydd ei waith gwirfoddol ar Yr Wyddfa ac wedi llwyddo i gael ei ddewis gan banel o arbenigwyr i fynd trwodd i'r rownd derfynol yn y categori 'Gwirfoddoli'. Gwobrau Dewi Sant yw gwobrau cenedlaethol Cymru sy'n cael eu henwebu gan y cyhoedd.

Mae cael enwebiad yn anrhydedd enfawr heb son am fynd trwodd i'r rownd derfynol. Roedd ennill y brif wobr yn y categori 'Gwirfoddoli' yn fraint ac anrhydedd enfawr ac yn cydnabod gwaith gwych sydd yn cael ei gyflawni nid yn unig gan Dîm Achub Mynydd Llanberis ond gan holl dimau achub mynydd yn y Deyrnas Unedig.


Mae cyfrifoldebau'r tîm yn amrywiol; maent yn ymateb i ystod eang o sefyllfaoedd, er enghraifft cerddwyr sydd ar goll neu wedi eu hanafu, dringwyr mewn trafferthion ar y creigiau, chwilio ac achub arbenigol yn y dŵr yn ogystal ag ar y mynyddoedd.

Mae Tîm Achub Mynydd Llanberis ar gael 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, waeth beth fo'r tywydd. Maent yn meddu ar amrywiaeth o offer arbenigol, gan gynnwys cerbydau achub mynydd, offer meddygol, rhaffau, offer dringo a thechnoleg cyfathrebu er mwyn gallu achub pobl yn effeithlon ac effeithiol.

Heb unrhyw gymorth ariannol gan y llywodraeth, mae Tîm Achub Mynydd Llanberis yn dibynnu ar roddion, digwyddiadau codi arian, ac ymroddiad ei haelodau i gynnal gweithrediadau a thalu am offer a hyfforddiant.

Tîm Achub Mynydd Llanberis yw tîm achub mynydd prysuraf y Deyrnas Unedig. Yn 2023 fe wnaeth y Tîm Achub ymateb i 308 o alwadau ac fe fu iddynt ymateb i 326 o alwadau yn 2024. Hyd yma yn 2025 (hyd at yr 8fed Ebrill) mae Tîm Achub Mynydd Llanberis wedi ymateb i 62 o alwadau. Diau fydd yn flwyddyn brysur arall i wirfoddolwyr y Tîm Achub.







## Fandaliaid yn taro Ynni Padarn Peris

Mae cwt sy'n dal tyrbin hydro Ynni Padarn Peris wedi ddifrodi ddwywaith gan fandaliaid yn mis Ebrill.

Mewn neges ar eu cyfrif Facebook, dywedodd Ynni Padarn Peris fod "rhyw gnafon wedi difrodi cwt tyrbin yr hydro gymunedol" ar 1 Ebrill, ac eto ar 12 Ebrill.

Roedden nhw wedi malu'r drws, llosgi hen gadair a chabinet oedd y tu mewn i'r cwt a malu ychydig o'r clading pren y tu allan ar 1 Ebrill. Yna roedd mwy o'r clading wedi mynd a difrod i'r cysylltiad wifi wedi bod ar 12 Ebrill. Roedden nhw hefyd wedi llosgi'r llyfr a oedd yn cynnwys cofnodion gan y gwirfoddolwyr am yr egni oedd wedi'i gynhyrchu.

Ond, "diolch i'r drefn" meddai Ynni Padarn Peris, "mae'r system ei hun yn iawn".

Mae cryn dipyn o waith trwsio wedi'r difrod. "Mae hyn yn mynd i gostio cannoedd mae'n siŵr i drwsio'r drws ac ail-gladio'r tu allan".

Mae'r heddlu bellach wedi bod at y cwt ddwywaith ar ôl derbyn galwadau am y difrod.

Cafodd y cynllun hydro cymunedol Ynni Padarn Peris ei gomisiynu a'i adeiladu yn 2017 wedi cyfnod o gasglu cyfranddaliadau yn y gymuned. Mae'r tyrbin hydro yn cynhyrchu 50KW drwy ddefnyddio'r dŵr sy'n llifo yn Afon Goch, Llanberis.

Mae cyfranddalwyr yn derbyn llog bob blwyddyn ac mae £10,000 o'r arian sydd dros ben yn cael ei roi i Elusen Dyffryn Peris sy'n ei ddosbarthu i brosiectau cymunedol yn y dyffryn.

"Ti'n trio dy orau i greu bach o bres i brosiectau fedrith pobl gael bach o fudd ganddyn nhw a llwyddo efo nhw. Mae'r fandaliaeth yma yn tynnu'r arian i ffwrdd o bethau lleol a all ddefnyddio'r arian yna at bethau gwell".

# Ysgol Waunfawr

**Eisteddfod Sir yr Urdd, Pontio**
Bu cystadlu brwd iawn a phawb wedi mwynhau y profiad. Diolch yn fawr i Huw Llyr am ein cefnogi gyda'r hyfforddi ac i'r plant wrth gwrs am eu gwaith caled. Diolch hefyd i Lois Eifion a Gwenda Griffith am ein cynorthwyo gyda'r cyfeilio.

Bydd Erwan Roberts yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol – pob dymuniad da iddo.





**Gornest Ddarllen**
Mae criw o blant Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 wedi bod yn rhan o Ornest Ddarllen yn ddiweddar. Bu iddynt ddarllen dau lyfr yr un er mwyn ateb cwestiynau a chreu hysbyseb. Croesi bysedd y byddem yn cael llwyddiant ac yn mynd i'r cam nesaf.

**Glan Llyn Isa'**
Bu criw dosbarth Wyddfa ar ymweliad preswyl i Glan Llyn yn ddiweddar. Yr oedd pawb wrth eu boddau gyda'r llety hunan-gynhaliol a'r holl weithgareddau cyffrous. Edrychwn ymlaen at gael ymweld eto yn fuan.

**Llongyfarchiadau**
Mae Ned Glyn wedi cyrraedd sef brawd i Ania Glyn. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Lisa Griffiths a'r teulu. Edrychwn ymlaen at weld Ned yn fuan iawn. Croesawn Mr Wyn Griffith atom fel athro llanw yn nhymor yr Haf.

**Cyfeillion i'r ysgol**
Diolch i gyfeillion yr ysgol am yr holl waith codi nawdd yn ystod y tymor hwn gan gynnwys noson ffilm a chlwb Celf. Diolch hefyd i Mr Terry Parry ac i dafarn Snowdonia Parc am eu cefnogaeth i gynnal y noson.

**Sportshall**
Da iawn i't tim a fu'n cystadlu yn ddiweddar – mae athletwyr hynod o dalentog yma yn yr ysgol.

**Gymnasteg**
Mae gennym athletwr o fri yn yr ysgol. Mae'r bachgen hwn wedi cynrycholi'r ysgol ac Eryri mewn cystadleuaeth Gymnasteg yn ddiweddar.






**Oes y Tywysogion**
Pleser oedd cael cwmni Mr Gareth Roberts (Menter Fachwen) wrth grwydro o amgylch Castell Dolbadarn yn ddiweddar. Cawsom hanesion difyr am oes y tywysogion yng Ngwynedd. Braf oedd cael teithio ymlaen i Gastell Dolwyddelan er mwyn gallu cymharu'r cestyll. Yr oedd y plant yn mwynhau pob eiliad o'r diwrnod a braf oedd eu clywed yn ymfalchïo yn eu hanes.










# DEINIOLEN



**Canwio** Diolch i Tom Gwynedd am ein harwain ar daith arbennig ar Lyn Dinas mewn canŵ. Am ddiwrnod bendigedgig gyda golygfeydd godidog!



**Garddio**
Diolch i Anna Williams (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru) am ein cynorthwyo i ddatblygu ardaloedd yn yr ardd. Mae plant Dosbarth yr Wyddfa yn brysur iawn gydag Anti Charline yn plannu llysiau a blodau o bob math.



**Gwasanaeth Bedydd ac ymweliad Eglwys**
Bu dosbarth Mynydd Mawr a Moel Eilio yn dathlu bedydd Emily (babi dol Anti Anne) yn ddiweddar. Bu'r criw Moel Eilio ar daith i Eglwys Sant Padarn hefyd. Diolch yn fawr i Anna Jane am ein cynorthwyo i gynnig y profiadau hyn i'r plant.



**Cystadleuaeth Dawns Cymru, Pontio**
Bu criw o blant yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth yn ddiweddar. Diolch i Mrs Hannah Williams a Mrs Sian Herbert am eu gwaith caled yn paratoi'r plant. Yr oeddynt yn ail yn y categori.



**Pasg**
Bu'r plant yn brysur iawn yn creu hetiau Pasg a chwblhau helfa Pasg yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi – yr oedd yr hetiau yn werth chweil!

**Gŵyl Deiniolen**
Cynhaliwyd noson i ddewis y Frenhines a'i chwrt ar gyfer Gŵyl Deiniolen eleni a llongyfarchiadau i bawb a gafodd eu dewis Hunter yn Dywysog, Seren yn Frenhines Leri yn Dywysoges. Cynhaliwyd helfa wyau pasg hefyd ar yr un noson a llongyfarchiadau i'r enillwyr Iago a Nora.






**Neges gan y Cynghorydd Elfed Wyn Williams**
Dwi wedi bod yn ebostio y Cyngor, Parc ac Engie/First Hydro ynglŷn â fandaliaeth a sbwriel yn y chwarel. Dwi wedi cael ebyst yn ôl gan bawb. I gadw y neges yn fyr, mae Engie/First Hydro am fynd i fyny i'r chwarel i weld be fedra' nhw 'neud.

Diolch i'r Cyngor am dorri gwair ym Mynwent Macpelah yn ddiweddar. Diolch i'r Cyngor am dorri gwair yn cae chwarae Clwt y Bont hefyd. Ar nodyn gwahanol, llongyfarchiadau i glwb pêl-droed Deiniolen am gyrraedd rownd y chwarteri ar ôl curo Llanfairpwll mewn cystadleuaeth cwpan Menai Tractors, ar gae y Bwthyn.



**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Gethin a Megan, Awel y Grug ar enedigaeth Nansi Jên, chwaer fach i Tomi, wyres i Aeron, Stad Croes y Waun a gor-wyres i Jeanifred.

Llongyfarchiadau hefyd i Sophie ac Iestyn Tyne, Bryn Llewelyn ar enedigaeth mab bach, Ned Rhys ar y 3ydd o Ebrill, brawd bach i Nansi.
Pob hwyl i chi i gyd ar y magu!

**Pen-blwydd Arbennig**
Bu Mrs Gladys Greasley yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Gobeithio i chi fwynhau'r dathliadau.

**Brysiwch wella**
Mae nifer o'r pentref wedi treulio amser yn yr ysbyty neu wedi cael triniaeth yn ystod y mis aeth heibio. Cofion cynnes iawn at Olwen Owen, Tref Eilian, Gareth Williams, Plas Bodhyfryd a Derfel Parry, Cae March.

**Llwyddiant yn yr Urdd**
Unwaith eto mis yma, daeth llwyddiant i ran nifer o blant y pentref mewn cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd. Dymuniadau gorau i chi sydd drwodd i'r Genedlaethol a da iawn i bawb fu'n cystadlu ar pob lefel

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau mawr i Bethan a Jac, Fron Hyfryd ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r dyfodol

**Blodau Sul y Mamau**
Bu Helen Fretwell, Garreg fawr yn brysur eto eleni yn paratoi Cennin Pedr mewn potyn i'w gwerthu er mwyn codi arian tuag at Ysgol Waunfawr, ac fe wnaethpwyd elw o £126 o'r fenter.
Mae Helen wedi bod yn arwain nifer o weithgareddau codi arian at yr ysgol, fel y noson gelf yn y Ganolfan a'r noson creu torchau Nadolig yn y dafarn. Diolch Helen am dy ymdrech ac i bawb fu'n cefnogi.





Corner Pocket Sports Club – Poced Gornel
Llwybrau Llesiant
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd – North Wales Together
Y Ddraig Clwb Llanberis
Jones' Pizza
Snowdonia Glacials
Tafarn y Black Boy Inn – Pedwar a Chwech Caernarfon




**Diolch - Thank you**

**Llwyddiant Cenedlaethol**
Llongyfarchiadau anferthol i Osian Owen, Stad Tŷ Hen ar ei lwyddiant yn chwarae Pŵl. Mae Osian wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn Nhwrnament y Cenhedloedd (Home Nations) ar gyfer unigolion ag anableddau. Bydd Osian yn cystadlu yn Bridlington ganol mis Ebrill. Pob lwc i ti Osian – "rho hel iddyn nhw!!!"

Blodau Sul y Mamau
Cennin Pedr mewn potyn
£5
archebwch erbyn Dydd Llun, Mawrth 24ain
drwy gysylltu a Helen :07810441508
Elw tuag at Cyfeillion Ysgol Waunfawr







**Panad a Sgwrs ar Daith**
I Moelfre aeth y criw ar daith mis yma, gyda phawb wedi mwynhau'r tywydd braf a chinio blasus. Roedd llwybr yr arfordir yn anwastad mewn mannau ond rhywsut neu'i gilydd daeth pawb adref yn ddi-anaf! Diolch i Ann Croesor a Gill Wyn am drefnu, ac i Bethan am y lluniau.




**Medal Aur i un o hogia Waun**
Bu Math Morgan yn cynrychioli Ysgol Waunfawr ac Ysgolion Eryri yng Nghystadlaeth Gymnasteg Ysgolion Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Bu cystadlu brwd, a llwyddodd Math i ennill medal aur – ardderchog Math, da iawn chdi. Rydym fel pentref yn ymfalchïo yn dy lwyddiant.

Siân Gwenllian AS
Aelod o'r Senedd dros Arfon


01286 672076
8 Stryd y Castell, Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
16 Stryd Porth Mawr
Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG
(01286) 673535/676040
Ebost: enquiries@perkinsfurniture.co.uk

www.perkinsfurniture.co.uk

# Jac y Neidiwr: Pla yn ein plith

Mae Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera*) yn blanhigyn addurniadol sydd wedi cyflwyno problemau amgylcheddol sylweddol mewn llawer o ranbarthau. Yn frodorol i'r Himalaya yn Asia, fe'i cyflwynwyd i Ewrop a Gogledd America yn y 19eg ganrif fel planhigyn gardd deniadol. Fodd bynnag, ers hynny mae wedi lledaenu'n gyflym ar draws tirweddau, gan ddod yn un o'r rhywogaethau mwyaf goresgynnol mewn rhai ardaloedd. Mae ei dwf ymosodol a'i botensial i darfu ar ecosystemau brodorol yn peri bygythiadau sylweddol i fioamrywiaeth, bywyd gwyllt lleol, a sefydlogrwydd cynefinoedd.





**Pam bod *Himalayan Balsam* yn Ymledol?**
Gellir beio ymlediad Jac y Neidiwr ar sawl ffactor sydd yn achosi iddo gystadlu â'n planhigion brodorol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Twf a Lledaeniad Cyflym: Mae Jac y Neidiwr yn blanhigyn sy'n tyfu'n gyflym gan gyrraedd uchder o hyd at 3 metr (10 troedfedd) mewn un tymor o dyfiant. Mae'n ffynnu mewn ardaloedd aflonyddgar fel glannau afonydd, gwlyptiroedd, a choetiroedd prysur. Mae ei allu i dyfu'n gyflym yn caniatáu iddo gysgodi planhigion brodorol ac o ganlyniad yn eu cuddio o olau haul.

Gwasgariad Hadau: Mae'r planhigyn yn cynhyrchu niferoedd enfawr o hadau sy'n cael eu gwasgaru'n ffrwydrol pan fydd y podiau hadau yn aeddfedu ac yn chwythu ar agor, sydd yn arwain at ei enw "Jac y Neidiwr". Mae'r mecanwaith rhyddhau hadau ffrwydrol yma yn caniatáu iddo ledaenu ar draws ardaloedd helaeth yn rhwydd, yn aml yn cyrraedd lleoliadau newydd trwy ddyfroedd, cludiant drwy anifeiliaid, neu weithgareddau dynol.

Allelopathi: Mae ambell i ymchwil yn awgrymu y gallai balsam Himalaya ryddhau cemegau i'r pridd sy'n atal twf planhigion cyfagos, proses a elwir yn allelopathi a mae hyn yn atal gallu planhigion brodorol i ffynnu mewn ardaloedd lle mae balsam yn bresennol.

Cystadleuaeth isel: Mae Jac y Neidiwr yn tyfu mewn stondinau trwchus, gan leihau gallu planhigion brodorol i gystadlu am adnoddau. Mae hyn yn broblem arbennig i blanhigion sydd angen pridd agored neu ardaloedd sydd â llai o gystadleuaeth am olau haul, dŵr a maetholion.

**Effeithiau Ecolegol Jac y Neidiwr**
Gall presenoldeb Jac y Neidiwr mewn ecosystemau gael sawl canlyniad ecolegol negyddol:

Lleihau bioamrywiaeth: Trwy orchfygu planhigion brodorol, gall balsam Himalaya leihau bioamrywiaeth. Mae llawer o blanhigion brodorol yn dibynnu ar yr un adnoddau ond yn brwydro i oroesi ym mhresenoldeb Jac y Neidiwr. Mae'r golled hon o lystyfiant brodorol yn effeithio ar y gadwyn fwyd gyfan, o bryfed i lysysyddion mwy a hyd yn oed rhywogaethau adar sy'n dibynnu ar y planhigion am fwyd a lloches.

Erydiad Pridd: Nid yw system wreiddiau trwchus balsam Himalaya yn darparu'r un priodweddau rhwymo pridd â phlanhigion brodorol, gan wneud y pridd yn fwy agored i erydiad. Mae hyn yn broblem arbennig ar hyd glannau afonydd a gwlyptiroedd, lle gall goruchafiaeth y planhigyn waethygu erydiad, gan arwain at broblemau ansawdd dŵr a cholli cynefin ar gyfer bywyd dyfrol.

Tarfu ar gynefinoedd dyfrol: Mae Jac y Neidiwr yn ffynnu mewn ar lan dŵr, lle gall effeithio'n negyddol ar ecosystemau dyfrol. Wrth i wreiddiau'r planhigyn ddirywio a marw, gall ryddhau symiau mawr o ddeunydd organig i'r dŵr, ac all effeithio ar ansawdd dŵr trwy gynyddu lefelau maetholion. Gall y broses hon, a elwir yn ewtroffaid, arwain at ddisbyddu ocsigen, gan niweidio bywyd dyfrol.

Effaith ar Amaethyddiaeth a Choedwigaeth: Gall lledaeniad Balsam Himalaya hefyd beri problemau i amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae'r planhigyn yn cystadlu â chnydau a choed am faetholion, dŵr a gofod. Gall ei dwf cyflym ymyrryd â gweithrediadau ffermio ac ymdrechion adfywio coedwigoedd. Yn ogystal, oherwydd bod y planhigyn yn ffynnu mewn priddoedd llaith, ffrwythlon, gall ddod yn broblem sylweddol mewn tirweddau wedi'u tyfu neu eu rheoli.

**Beth alla'i wneud? Sut i waredu Jac y Neidiwr**
Tynnu â Llaw: Un o'r dulliau mwyaf cyffredin ac effeithiol o reoli Jac y Neidiwr yw trwy dynnu â llaw. Gan fod gan y planhigyn wreiddiau bas, mae'n gymharol hawdd tynnu i fyny â llaw, yn enwedig pan fydd y pridd yn llaith. Er mwyn sicrhau gwarediad llwyr, mae'n hanfodol tynnu'r planhigyn cyn iddo flodeuo a gosod hadau. Argymhellir gwisgo menyg i osgoi llid y croen o sudd y planhigyn.

Dull: Defnyddiwch fforc gloddio neu drywel llaw i lacio gwreiddiau'r planhigyn, ac yna ei dynnu allan o'r gwraidd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu'r holl ddeunydd planhigion, gan gynnwys gwreiddiau, i atal aildyfu.

Amseru: Gorau ei wneud yn ystod diwedd y gwanwyn a dechrau'r haf, cyn i'r planhigion flodeuo a chynhyrchu hadau. Mae angen monitro rheolaidd trwy gydol y tymor tyfu.

Torri a Trimio: Mewn achosion lle mae tynnu'n llwyr yn anodd, gall torri'r planhigion cyn iddynt osod hadau fod yn ddull rheoli effeithiol. Gall tocio'r planhigion yn rheolaidd ar lefel y ddaear eu hatal rhag blodeuo a lledaenu hadau. Dylid gwneud hyn bob ychydig wythnosau yn ystod y tymor tyfu.

Monitro a Chynnal a Chadw: Mae dileu Jac y Neidiwr yn ymdrech hirdymor. Mae monitro parhaus a rheoli dilynol yn hanfodol i atal ailsefydlu. Mae'n bwysig dychwelyd i ardaloedd a gafodd eu trin yn flaenorol i wirio am dwf newydd a chael gwared ar unrhyw blanhigion sy'n egino. Gall archwiliadau rheolaidd helpu i adnabod heintiau bach cyn iddynt ddod yn eang.

Gweithredu ac Ymwybyddiaeth Cymunedol: Gan fod Jac y Neidiwr yn rhywogaeth hynod o ymledol, mae ymdrechion cydgysylltiedig ymhlith cymunedau lleol, tirfeddianwyr a sefydliadau amgylcheddol yn hanfodol ar gyfer rheolaeth effeithiol. Gall ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus helpu unigolion i adnabod y planhigyn a deall pwysigrwydd o'i waredu pan gaiff ei weld. Gall rhaglenni tynnu gwirfoddolwyr a digwyddiadau glanhau cymunedol hefyd wneud gwahaniaeth sylweddol wrth reoli lledaeniad y rhywogaeth.

**Casgliad**
Mae *Himalayan Balsam* yn rhywogaeth ymledol hardd ond dinistriol sy'n peri bygythiadau difrifol i ecosystemau brodorol, amaethyddiaeth a sefydlogrwydd pridd. Mae ei ledaeniad cyflym a'i dwf ymosodol yn ei gwneud hi'n anodd ei reoli, ond gydag ymyrraeth gynnar a chynnal a chadw rheolaidd, mae'n bosibl lleihau ei effaith. Trwy ddefnyddio tynnu â llaw, torri, ac ymdrechion cymunedol, gallwn ddechrau adfer ardaloedd yr effeithir arnynt gan y planhigyn ymledol hwn a diogelu ein cynefinoedd naturiol. Bydd addysgu'r cyhoedd a gweithio gyda'n gilydd i ddileu Jac y Neidiwr yn y pen draw yn arwain at ecosystemau iachach ac amgylcheddau mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Ysgol Llanrug





**Pêl-droed**
Bu'r criw pêl-droed draw ym Mhlas Silyn yn ddiweddar mewn twrnament Ysgolion Gwynedd. Da iawn i'r bechgyn am gyrraedd y rownd derfynol ac i'r merched am gyrraedd y rownd gyn-derfynol. Balch iawn o berfformiad pob un.





**Ysgol Goedwig**
Rydym yn ffodus yma yn yr ysgol i gael sesiynau wythnosol yn yr Ysgol Goedwig. Blwyddyn 1 sydd wedi bod yn dysgu sgiliau, adeiladu llochesi a gwneud tân. Mae gan addysgu yn yr awyr agored fanteision lu, a'r plant yn amlwg yn cael budd mawr.

**Stroliwch a Rholiwch**
Yn flynyddol rydym yn rhan o her Sustrans ac yn cyfrif yn ddyddiol faint o blant fydd yn beicio, sgwtera a cherdded i'r ysgol. Mae gwobrau ar gael yn ddyddiol ac ar ddiwedd y pythefnos mae un dosbarth yn ennill. Daeth dosbarth Cefn Du i'r brig eleni a diolch i MARATHON ERYRI cawsant boteli diod gydag anrhegion ynddynt.






**Dathlu 100 mlynedd**
Daeth Dafydd Whiteside Thomas draw yr wythnos diwethaf i gychwyn ar ein dathlu. Bydd yr ysgol yn 100 oed ddiwedd y flwyddyn ac rydym am gychwyn gyda chreu podlediad gyda chymorth Dafydd.




**Ras Llanrug**
Cofiwch am Ras Llanrug ar y 4ydd o Fehefin. Bydd ras y plant 2K yn cychwyn am 6.00pm; £3.00 i blant oedran ysgol gynradd. Yna am 7.30pm bydd y ras 5K sydd yn agored i blwyddyn 7 i fyny. Bydd angen cofrestru ar-lein ar gyfer y ras yma.

**Trip**
Bu blynyddoedd 5 a 6 draw i Dangerpoint yn ddiweddar i ddysgu am beryglon yn ein cymdeithas.





**Llongyfarchiadau**
Mae'r ysgol bob amser yn falch o'n plant a braf yw eu gweld yn dod i'r brig mewn gweithgareddau. Daeth Fin ac Iago yn gyntaf yn yr Eisteddfod Sir draw yn Pontio yn y gystadleuaeth clocsio tra bo Efan a Poppy wedi derbyn gwobr athletwyr y flwyddyn gan Eryri Harriers.






**Bingo**
Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang gyda phob bwrdd yn llawn o bobl yn barod i ennill wyau Pasg yn y bingo.

**Gwasanaeth Tân**
Daeth y Gwasanaeth Tân draw at y meithrin i siarad am bobl sydd yn ein helpu.

**Bore Coffi**
Mae'n braf cael cefnogi ymgyrch Masnach Deg yn flynyddol a diolch i bawb o'r gymuned a ddaeth draw i'n bore coffi. Cafwyd gwledd o ganu gan holl blant yr ysgol, a phawb yn mwynhau cael gwrando a gwylio'r eitemau y bu'r plant yn perfformio yng nghystadlaethau'r Urdd.

LIZ SAVILLE ROBERTS AS
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd



8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
01286 672 076
Liz Saville Roberts AS/MP



Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

# LLANBERIS

**CAIS AM NEWYDDION**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

**Cyfraniad Marathon Eryri i Bentref Taclus Llanberis**
Mae Eric Bayliss yn wirfoddolwr gyda marathon Eryri ac wedi bod yn helpu mewn digwyddiadau yn y pentref ers degawdau. Mae Eric hefyd yn aelod allweddol o grŵp gwirfoddol Pentref Taclus Llanberis.

Cyfarfu cyfarwyddwr Marathon Eryri, Anthony Rogers (ar y dde), ag Eric yn ddiweddar i gyfrannu gwerth dros £1,000 o offer Stihl o'u cronfeydd yn 2024 i helpu Eric a'r grŵp i gadw'r pentref yn daclus a pharhau â'r gwaith gwirfoddol gwych, sydd o fudd i bawb ym mhentref Llanberis

Mae'r gwirfoddolwyr hefyd wedi bod allan gyda disgyblion Ysgol Dolbadarn fel rhan o 'Gwanwyn Glân Cymru – Cadwch Cymru'n Daclus' i gasglu sbwriel o amgylch y pentref. Roedd pawb wedi mwynhau ac edrychwch faint o sbwriel a gasglwyd mewn ychydig tros awr. Fel diolch i'r plant mae pob un wedi derbyn ŵy pasg gan Pentref Taclus fel diolch am eu hymdrechion gwych. Diolch blantos!

Oes ganddoch chi awydd i gwneud gwahaniaeth yn y pentref? Pam ddim ymuno gyda'r criw bob bore Sul, 10.00 o'r gloch yn siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr. Fydd bob offer ar gael ar y diwrnod.

Os oes gan grwpiau neu fudiadau eraill ddiddordeb mewn trefnu amser i godi sbwriel, cewch fenthyg ein offer ni. Cysylltwch trwy Facebook neu wrth ofyn pan welwch ni ar y strydoedd!

**Cydymdeimlad**
Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, yn dilyn cystudd byr ond creulon, bu farw Alwen Mai Roberts, mam a nain arbennig. Cafodd ei geni a'i magu yn y pentref, ac yno y bu byw gydol ei hoes. Bu'n cadw siop wlân yn y pentref. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w mab, Bryn a'r teulu yn Llanberis, a'i merch, Anna a'r teulu yn Whaley Bridge.

**Er Cof**
Hoffem, fel teulu, ddatgan ein diolch i Glwb Pêl-droed Llanberis am roddi Plac Llechen i fyny yn yr Ystafell Wisgo, er cof am Euron.

**GRWP CROSIO A GWAU LLANBERIS**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob Nos Lun o 6.00 tan 7.30pm, am ddim. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**CLWB GWNÏO**
Rydym yn y Ganolfan bob prynhawn dydd Iau, 2.00 tan 4.00pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**CAPEL COCH**
**HEN STAMPIAU**
Diolch i bawb sy'n cadw Hen Stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi Gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gelli'r rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.

**BOCS BWYD**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r bocs bwyd. Gellir rhoi'r nwyddau yn y bocs bwyd yn y cyntedd, unrhyw Sul.

**OEDFAON CAPEL COCH MIS EBRILL A MAI**
Ebrill 27ain – 10.00am
Parch Gwenda Richards
Mai 4ydd – 10.00am
Parch John Pritchard
Mai 11eg – 10.00am
Parch Eric Jones
Mai 18ed – 2.00pm
Mr Arfon Wyn
Mai 25ain – 10.00am
Oedfa

**EGLWYS SANT PADARN – ISAAC HUGHES**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10.30 a 2.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.



**EGLWYS SANT PADARN**
27 Ebrill, 9:30am - Boreol Weddi
Cynhelir gwasanaeth bob bore Sul am 9:30am yn ystod mis Mai

Enillwyr clwb 100 mis Mawrth oedd-
1) Fiona Watkins 2) Brenda Griffith 3) Myra Moorse. Yn anffodus, mae'r clwb 100 yn awr wedi dod i ben, diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Ar nos Fercher, 9fed Ebrill cynhaliwyd gwasanaeth Conffyrmasiwn yn Eglwys St Padarn. Cafodd tri o bobl ieuanc o ardal Bro Eryri, gweler y llun, eu conffyrmio gan y Gwir Barchedig Esgob David Morris, Esgob Enlli. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros luniaeth a theisen arbennig.



## Pentref Taclus Llanberis




# LLANBERIS A NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris,, Nant Peris**
Cynhelir gwasanaeth bob bore Sul a bore Mercher am 9:30yb yn ystod mis Mai. (Noder fod y gwasanaeth canol wythnos wedi newid o ddydd Mawrth i ddydd Mercher.)

# Un funud fach ...

## YR UN PERFFAITH

Yn gyntaf oll, ymddiheuriadau mawr os na chawsoch ddathlu'r Pasg o'm hachos i. Ar yr 20fed o Ebrill oedd Sul y Pasg eleni, ac nid ar y 25ain fel y nodwyd yn y golofn hon y mis diwethaf. Gobeithio'n fawr na wnes i eich drysu'n ormodol ac na cholloch chi gyfle i fod mewn oedfa. Dim ond wedi cael yr *Eco* yn fy llaw y sylwais ar y camgymeriad. Bwriadu deud oeddwn i mai'r 25ain o Ebrill ydi'r dyddiad hwyraf posib ar gyfer Sul y Pasg. Ond wrth ail wampio a golygu'r erthygl mi wnes i gawl o bethau. Blerwch llwyr.

Gwaetha'r modd, waeth faint o ymdrech a wneir i'w hosgoi, mae camgymeriadau'n mynnu digwydd. Rai blynyddoedd yn ôl, yn un o gapeli'r fro dangoswyd i mi gamgymeriad ym mhatrwm cywrain y pren ar flaen y galeri. Doedd o ddim yn hawdd i'w weld, ond o graffu arno roedd yn amlwg bod un rhan o'r patrwm wyneb i waered. Ond yn ôl y sawl a'i dangosodd i mi, roedd hwn yn gamgymeriad cwbl fwriadol ar ran y crefftwr a'i lluniodd am ei fod eisiau atgoffa pawb a'i gwelai nad oes ond dim na neb yn berffaith ond yr Arglwydd Dduw ei hun. Wn i ddim ai gwir yr esboniad ai peidio, ond rwy'n dal i ddotio at y stori.

Tybed be' feddyliai'r crefftwr hwnnw o'n clywed yn cyfeirio'n fynych at bob math o bethau 'perffaith'? 'Perffaith', meddwn, am waith a wnaed, am lun a dynnwyd, am gôl a sgoriwyd, am gân a glywyd, ac am fabi bach a anwyd. Ond er cystal, ac er hardded y cyfan, mi wyddom nad oes yr un ohonyn nhw'n berffaith ac yn gwbl ddifai. Ond ydi hyd yn oed y babi bach prydferthaf yn fuan iawn yn styrbio cwsg ei rieni blinedig!

Roedd y crefftwr yn llygad ei le. Dim ond Duw sydd berffaith. Nid ein bod ni'n deall hynny bob amser. Nid rhwydd ydi credu bod ein byd o lanast a phoen yn wreiddiol yn greadigaeth berffaith gan Dduw perffaith. Yng nghanol ein trafferthion a'n profedigaethau, nid rhwydd ydi credu bod Duw perffaith yn gwarchod trosom. Ac nid rhwydd ydi credu mai croes a marwolaeth Iesu Grist ydi trefn berffaith Duw i ddarparu gobaith a bywyd i'w bobl. Ond dyna dystiolaeth y Beibl; a dyna, trwy ras a chymorth Duw, fu cred Cristnogion yr oesoedd. Mor bwysig cofio nad ydi perffeithrwydd Duw'n dibynnu ar ein gallu ni i'w ddeall na'i gredu

Yn amlwg, mae cydnabod mai Duw yn unig sydd berffaith yn golygu cydnabod yr un pryd ein hamherffeithrwydd ein hunain. Nid ein bod yn bodloni ar hynny. Wedi'r cwbl, mae Iesu Grist yn ein hannog yn y Bregeth ar y Mynydd, 'Byddwch chwi'n berffaith fel y mae eich Tad nefol yn berffaith' (Mathew 5:48). Mae Iesu mewn gwirionedd yn ein hannog i anelu at y perffeithrwydd sydd y tu hwnt i'n cyrraedd.

Ac mor bwysig hefyd yw cydnabod amherffeithrwydd pobl eraill. Nid yn feirniadol, ond er mwyn i'n disgwyliadau fod yn deg a rhesymol. Mor beryg ydi hi, ac mor dueddol ydym o ddisgwyl i eraill fod yn berffaith, er ein bod ni ein hunain yn bell o fod felly. Ac er na ddylem orfod bodloni ar amherffeithrwydd pobl eraill, mi ddylem fedru cydymdeimlo a maddau pan fyddan nhw hefyd yn cydnabod eu bai ac yn anelu at fod yn well. Gan fod Duw'n tosturio ac yn maddau i'r edifeiriol, mi fedrwn ninnau fentro gwneud hynny.

**JOHN PRITCHARD**




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

CWYR
YDY CLUSTIAU LLAWN CWYR YN EICH DAL YN ÔL?
GWASANAETH TYNNU CWYR AR GAEL YN EIN FFERYLLFA YN LLANBERIS
HOLWCH AM YMWELIADAU CARTREF



Fferyllwyr Llŷn
Fferyllfa I Ellis Jones, Llanberis
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk



Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

# BETHEL A SEION

**Diolch**
Diolch i chwi am eich taliadau prydlon am y flwyddyn. Trist oedd sylwi wrth grynhoi'r cyfrifon faint o gefnogwyr selog yr Eco a gollwyd yn y flwyddyn diwethaf yma. Byddwch genhadon, neu atgoffa eraill fod yr Eco hefyd ar gael yn y Caffi Cymunedol.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Gethin Wyn (gynt o Fethel) a Llio Emyr (gynt o Benisarwaun), bellach o dre'r Cofis, ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch a phob hapusrwydd.

Mae adroddiad cynhwysfawr am fuddugoliaeth clwb rygbi Caernarfon yn yr adran chwaraeon. Nodir ynddo y cysylltiadau cryf gyda bro'r Eco ymysg y chwaraewyr. Mwy rhyfeddol yw'r cysylltiadau drwy enedigaeth neu'n byw'n bresennol gydag ardal Bethel a Seion. Felly er mwyn cael cofnod parhaol dyma'r aelodau o'r garfan fuddugol.

Armando Morgan (Bethel), Mac Jones (Brynn Pistyll), Bedwyr ac Elis Jones (Llys Gwynt), Aled Jones (Bethel), Rhodri Jones (Bethel), Samiwel Williams (Cefn) a Guto Pierce (Pontrug).

**Oedfaon Mai**
**Cysegr**: 4/5 Gweinidog, Sul yr Ofalaeth (Cysegr); 11/5 Edward Morris Jones; 18/5 Undebol yng Nghapel Saron; 25/5 Gweinidog.
**Bethel**: 4/5 Parch. Cledwyn Williams; 11/5 Parch. Ioan Gruffydd; 25/5 Parch. R.E. Hughes.

**Ymlaen i Fargam**
Braf cyhoeddi y bydd gan ardal Bethel gynhyrchiolaeth unwaith eto eleni yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Unwaith eto daeth y dawnswyr i'r brig. Dymuniadau gorau i Grŵp Dawnsio Lowri, a diolch i bawb fu yn hyfforddi. Dymuniadau gorau ar y llwyfan mawr.

**Llongyfarchiadau**
I gangen Bethel o Ferched y Wawr fydd yn cyrraedd carreg filltir o 50 mlynedd o gyfarfod ers eu sefydlu. Diolch iddynt am eu cyfraniad mewn sawl ffordd i fywyd y pentref yn gymdeithasol a diwylliannol dros y cyfnod.

I gyfarch cangen Merched y Wawr Bethel ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 50 oed;

Ymlaen â graen fydd y gri, – ei gorchwyl
fydd gwarchod, cefnogi'r
elfennau fu'r sylfeini;
yn erwau'r iaith mae'i aur hi.
R,LL.J.

**Penwythnosau Prysur**
Mae dyddiad Twrnament Pêl-droed Bethel yn prysur agosáu. Dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi ennill ei le fel un o brif gystadlaethau gogledd Cymru a thu hwnt. Mae hefyd yn gystadleuaeth ble mae'r clwb cartref yn mynnu dal eu tir fel un o glybiau gorau yr ardal.

Ar benwythnos 10/11 o Fai bydd cystadlaethau 7 bob ochr – i dimau dan 11 ac 12 ar y 10ed, a thimau dan 13 ac 14 ar 11eg Mai.

Ar y penwythnos canlynol bydd timau 4 v 4 dan 6, 7 ac 8 yn cystadlu ar 17eg Mai, ac ar 18ed Mai bydd cystadleuaeth 7 v 7 i oedrannau dan 9 a dan 10.

Gwledd o bêl-droed yn ein disgwyl ar gae Coed Bolyn. Ambell seren y dyfodol efallai. Dewch draw i gefnogi.

**Caffi Cymunedol**
Diolch o galon i'r gwirfoddolwyr a gamodd ymlaen i gynnig oriau tu ôl i'r cownter yn y siop, a diolch i'r sawl sy'n cefnogi'r siop.

**Clwb Bro**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o'r clwb gyda Mary Wyn Jones yn llywyddu. Cydymdeimlwyd â Pat Millican ar farwolaeth ei gŵr yn ddiweddar.

Y siaradwr gwadd oedd y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda. Yn enedigol o Ddyffryn Ogwen, bu'n gweithio yn y maes addysg ac mae'n ymgyrchwr brwd dros yr iaith.

Testun ei sgwrs oedd Hiwmor Dyffryn Ogwen. Cawsom orig hwyliog iawn yn gwrando arno'n adrodd rhai o ddywediadau doniol rhai o gymeriadau Dyffryn Ogwen.

Diolchwyd iddo gan Richard Llwyd Jones. Pat Owen oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyd y raffl gan Ellen Ellis.

Bydd y cyfarfod nesaf yng nghwmni Meira Evans, Caernarfon ar y 6ed o Fai.

**Merched Y Wawr**
Iola Ynyr o Gaernarfon oedd ein siaradwraig wadd ym mis Ebrill, y mae hi'n artist llawrydd yn arbenigo mewn gwaith theatr a digidol fel cyfarwyddwraig, dyfeiswraig ac awdur. Fe gyhoeddodd 'Camu' y llynedd, sydd yn gofiant creadigol, ac y mae'r deuddeg ysgrif yn dilyn ffurff deuddeg cam at arferiad o fod yn alcoholig.. Gan ddechrau drwy ymarfer mantra symudol i ymdawelu, aeth a ni yn onest drwy ei thaith at adferiad, gan drafod y pwysigrwydd o chwalu'r tabŵ o fod yn alcoholig. 'Roedd alcohol yn rhoi hyder iddi pan yr oedd yn ansicr, ac yr oedd yn ei chario drwy ei harddegau pan oedd yn teimlo yn unig a blin. Mor hawdd yw deall sut y mae y berthynas yma yn egino a thyfu, a nifer o bosib yn adnabod y teimlad yna o fod ychydig yn ddewrach ar ôl cael glasied neu ddau. Ond dros amser fe aeth y ganllaw yn fagl, a'r ddibyniaeth yn y diwedd yn ei chaethiwo.

Ar ôl cael ei harestio am yfed a gyrru, 'roedd yn gwybod fod rhaid i bethau newid, a thrwy y rhaglen deuddeg cam fe ddaeth i adnabod ei hun, gan weld ei bod wedi bod yn byw yn ei phen gan gladdu y boen o deimlo'n unig. Y mae hi bellach yn defnyddio ei phrofiad a'i dawn i hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau ac yn gweithio ar gynllun 'Ar y Dibyn' efo Theatr



Cymru sydd yn rhaglen ar gyfer pobl sydd yn byw efo dibyniaeth. Mae hyn ynddo ei hun yn rhoi pwrpas i'w bywyd, sydd yn ei dro yn cynnal ei hadferiad. Soniodd hefyd am y cynllun 'Mwy' sydd yn delio efo tabŵ arall, sef y menopôs. Pwysleisiodd yr angen i ni gysylltu efo'n gilydd, rhannu'n straeon, i sicrhau ein bod yn gwybod nad ydym ar ein pen ein hunain, beth bynnag fo'n sefyllfa. Diolchodd Gwenan iddi am fod mor hael ei geiriau a'i dewder i rannu ei phrofiad.

Ar ddechrau'r cyfarfod estynodd Liz y llywydd groeso i Gwyneth Jones sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar a dymunodd ben-blwydd hapus arbennig i Falmai. Byddwn yn dathlu'r 50 mis nesaf ac yn cyfarfod yn y neuadd am 6.30pm.

Cadarnhawyd swyddogion y flwyddyn nesaf sef Anita Owen (Llywydd), Anne Elis (ysgrifennydd) a Mair Read (trysorydd).

Paratowyd y baned gan Alys Jones, Ellen Ellis, Beti Owen a Mair Price ac fe enillodd Jen y raffl.

Gellir gweld mwy o fanylion o'r cyfarfod ar ein gwefan https://mywbethel.org

# Nodiadau Natur

Mae'r gwanwyn wedi dod go iawn! Wrth i mi ysgrifennu hwn mae ŵyn bach yn prancio yn y caeau, y drain duon yn llawn blodau a phob math o goed yn deilio. Anodd credu bod cymaint o amrywiaethau ar y lliw gwyrdd! Mae tinwen y garn wedi cyrraedd yma, ond yn dal i aros am weld gwennol a chlywed y gog ar lethrau Moel Rhiwen.

Mae canlyniadau Arolwg Gwylio Adar yr Ardd (RSPB) yn hysbys bellach. Yng Nghymru, Adar y To yw'r amlycaf efo 89,598 o gofnodion (gan aros ar frig y tabl). Yn yr ail safle gwelwyd 53, 231 titw Tomos las, tra bo'r ddrudwen yn y trydydd safle gyda 42,331 cofnod ohonynt. Llithrodd y Titw Mawr i lawr un safle i'r 6ed lle, gyda 25, 411 cofnod ohono. Mi ydan ni'n ffodus acw o gael ei wylio'n eithaf aml ar ein bwydwyr adar. Mi ydw i hefyd wedi cael pleser o wylio pâr o Ditw Tomosiaid yn brysur yn gwarchod eu tiriogaeth ac erbyn hyn yn cario deunydd nythu i un o'r bocsys nythu yn y cefn acw. Croesi bysedd y byddan nhw'n llwyddiannus unwaith eto eleni'n magu cywion. Mae Aderyn To wrthi'n brysur yn cario deunydd nythu o dan y bondo ac mi welais ddau Robin Goch, nad oeddent yn cwffio, felly gobeithio mai pâr oeddent hwythau ac y cawn mwy o gywion. Mae'r drudwy wedi diflannu mwy neu lai, sy'n golygu (gobeithio) y byddant yn ôl gyda hyn efo llwyth o gywion, fydd yn chwalu'r bwyd o'r bwydwyr maes o law. Da ydy natur.

Felly dyma drafod dau ditw'r mis hwn, y Titw Mawr a'r Titw Tomos.

**Titw Mawr**
Enw gwyddonol - *Parus major*
Enw Saesneg - *Great Tit*
Enwau eraill Cymraeg - *Yswidw Fawr, Yswidw'r Coed, Hogwr, Pela Mawr a Penlöyn Mawr*



Diolch i Harri Williams am y llun bendigedig hwn.

Hwn yw'r titw mwyaf. Mae ganddo ben glasddu a bochau gwynion. Mae ei gefn yn wyrdd a'i adenydd yn llwydlas gyda llinell wen ar ei hyd. Mae'n mesur tua 14 cm o hyd ac yn pwyso oddeutu 18g.

Fel garddwr, dwi'n falch o ddeud ei fod yn mynd a rhwng 7,000 ac 8,000 o bryfaid a lindys i'w gywion yn y nyth. Mae hefyd yn bwyta pryfaid, cynrhon, cnau, hadau ac yn mwynhau peledi neu beli saim os ydach chi'n bwydo'r adar yn eich gardd.

Mae'n nythu mewn twll mewn coeden neu mewn bocs nythu ac yn gwneud ei nyth allan o fwsogl, gwair, gwlân, rhawn a phlu. Gan amlaf bydd yn dodwy rhwng 6 a 7 o wyau.

**Titw Tomos Las**
Enw gwyddonol - *Cyanistes caeruleus*
Enw Saesneg - *Blue Tit*
*Enwau eraill Cymraeg - Glas y Pared, Yswidw Fach Las, Gwas y Dryw, Cap y Lleian a Llygoden y Derw*



Dyma'r aderyn bach acrobatig dwi'n ei gofio'n bwyta cnau mwnci (ar linyn yn eu plisgyn) pan oeddwn yn blentyn, a'r cenna bach oedd yn malu caead y botel lefrith (fyddai'n cael ei gadael wrth y drws cefn bob bore) er mwyn cael yr hufen ar dop y llefrith! Mae'n parhau i fod yn gyfarwydd yn ein gerddi ac mewn coedwigoedd, gwrychoedd, llwyni a pharciau drwy Gymru gyfan.

Mae ganddo gap glas a chylch gwyn arno. Mae ei fol yn felyn trawiadol. Mae'n mesur tua 12 cm ac yn pwyso tua 11 - 12 g.

Maent yn bwyta gwyfynod corafalau (*codling moths*), gwyfynod deilrolwyr gwyrdd (*green oak tortrix moths),* lindys, cynron, cynron gwiddon (*weevil grubs*) a phryfaid, sy'n help garw i bob garddwr. Yn ogystal pan nad yw'r rhain ar gael, byddant yn bwyta hadau a chnau.

Yn ystod mis Ebrill a Mai maent yn canolbwyntio ar fagu'r cywion, hyd at 10 wy gan amddiffyn y nyth gyda chyfres o synau dwrdio a hisian. Ar nodyn llai positif, er bod y rhieni yn bwydo'r cywion am wythnos ar ôl iddynt adael y nyth, mae'r rhai bach yn hynod o agored i niwed gan ysglyfaethwyr o bob math yn ogystal â thywydd gwael. Ar gyfartaledd dim ond un o'r 10 cyw sy'n debygol o oroesi tan y gwanwyn nesaf.



# PENISARWAUN

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**

**Miri Mai**
Cynhelir Miri Mai ar nos Fercher 14eg o Fai am 6.00pm. Bydd cystadlaethau a stondinau amrywiol wedi eu trefnu gan y plant a'r rhieni. Mynediad £2 i gynnwys paned a bisged, ac opsiwn i brynu raffl a chŵn poeth i swper.

I ddilyn, cynhelir cystadlaethau o bob math ar gaeau'r Ysgol. Dewch yn llu i gymdeithasu ac ymuno yn yr hwyl.




**'Steddfod Bentref 2025**
Cynhelir Eisteddfod Bentref Penisarwaun 2025 ar nos Fercher 16eg o Orffennaf am 6.00pm. Bydd y testunau ar gael ddiwedd Mai. Cadwch lygad allan am fwy o fanylion.

Buasem yn ddiolchgar os gallai enillwyr tariannau llynedd eu dychwelyd i'r Ysgol neu i law yr Ysgrifennydd (Caryl, Cae Corniog Bach) erbyn diwedd Mai plis.

Fel yr arfer, mae cystadleuthau oedran Uwchradd a dros 18 oed yr Eisteddfod yn agored i bawb.


**Clwb Cant**
Tynnwyd Clwb Cant Ebrill yn ystod cyfarfod Pwyllgor ar 9fed Ebrill. Yr enillwyr oedd:
1af - Iago Hughes
2il - Wena Green

**Urdd**
Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd yn ddiweddar.

Daeth Myfi, Winllan, i'r brig ar y gystadleuaeth Unawd Gitar Bl.6 ac iau yn Eisteddfod Rhanbarth Eryri ac felly bydd yn mynd ymlaen i Eisteddfod Dur a Môr ddiwedd Mai. Pob lwc, Myfi!

**Dawnsio**
Cafodd rhai o blant yr ardal y cyfle i gystadlu yng Ngwobrau Dawns Cymru ym Mhontio ddechrau'r mis, gyda Chlwb Dawns Hudoliaeth (CDH).

Llongyfarchiadau i Anest fu'n rhan o'r grŵp dawns 'Gofodwyr' – daeth y grŵp yn ail yn y gystadleuaeth grŵp dawns Cynradd.



**Eglwys Santes Helen**
Gwasanaethau mis Mai:
4ydd Mai, 11.00am - Cymun Bendigaid. Cynhelir Cyfarfod y Gynulleidfa yn dilyn y Gwasanaeth.
11eg Mai, 11.00am - Cymun Bendigaid
18fed Mai, 11.00am - Boreol Weddi
25ain Mai, 11.00am - Boreol Weddi

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau gyda phaned a chymdeithasu yn dilyn pob gwasanaeth yn Neuadd yr Eglwys.



**Chwaraeon**
Bu Myfi, Winllan, yn brysur gyda timau chwaraeon fis yma. Llongyfarchiadau i dîm rygbi merched Y Môr Ladron ar ddod yn drydydd yn nhwrnament MiTour ym Methesda ac i dîm pêl-rwyd Walis Llachar ar ennill y gystadleuaeth Dan 11 yng Nghyngrair Pêl-rwyd Gogledd Orllewin Cymru.

# CAEATHRO

**Capel**
Ar y 4ydd o Fai, bydd Gwasanaeth Undebol yng Nghapel Cysegr, Bethel dan arweiniad y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 10.00am. Ar y 18fed o Fai, bydd Gwasanaeth yng Nghapel Caeathro dan arweiniad y Parchedig Nerys Griffiths am 2.00pm.

**Gwellhad Buan**
Anfonwn ein dymuniadau gorau a gwellhad buan i Owie Williams (Tai Glan Gwna) wedi iddo gael codwm yn ddiweddar.

**Clwb Garddio Caeathro**
**Cyfarfod Ebrill 2025**
Cyfarfu'r Clwb Garddio prynhawn dydd Mawrth, 8fed o Ebrill yng Nghapel Caeathro.

Yn anffodus, nid oedd ein siaradwr gwadd yn gallu bod yn bresennol. Penderfynwyd cynnal cwis garddio wedi ei baratoi gan y Cadeirydd, Trysorydd a'r Ysgrifennydd.

Rhannwyd yr aelodau yn dimau o bump. Cafwyd 10 cwestiwn ar blanhigion, 10 ar lysiau a 10 ar faterion garddio cyffredinol.

Bu cystadlu brwd a'r tîm ddaeth i'r brig oedd Wendy, Jean, Alison, Steve a Gwyneth. Roeddent yn hapus iawn i dderbyn talebau Frongoch fel gwobr. Diolch i Iona a Delyth am baratoi'r baned.

Y mis nesaf byddwn yn ymweld â rhandir Rhys Rowlands yng Nghae Pawb, Porthmadog.

Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

# Ysgol Penisarwaun

**Taith Glanllyn**
Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 dreulio dwy noson breswyl yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglanllyn yn ddiweddar. Cafwyd amser gwerth chweil a phawb wedi mwynhau gwneud yr holl weithgareddau oedd ar gael yno. Diolch o galon i Mrs Hughes am drefnu ac iddi hithau a Miss Nel am roi eu hamser i ofalu am y disgyblion tra ar y daith.







**Myfyriwr**
Diolch i Stephanie McCarthy sydd wedi bod acw ar brofiad amgen o'r brifysgol fel rhan o'i chwrs dysgu. Treuliodd Stephanie wythnos yn yr ysgol. Dymuniadau gorau iddi yn ei gyrfa fel athrawes yn y dyfodol.

**Gwasanaeth**
Diolch i'r parchedig Naomi Starkey sydd yn gwasanaethu yn eglwysi Bro Eryri ac wedi bod draw yn yr ysgol yn cynnal gwasanaeth i'r disgyblion unwaith eto yn ddiweddar.

**Themâu Ysgol**
Themâu'r tymor nesaf fydd "Y fferm" yn nosbarth Bryn Hyfryd a "Fforio" yn Nosbarth Tan y Coed.

**Gweithdy Gwyddoniaeth**
Cafwyd Gweithdy Gwyddoniaeth diddorol iawn yn ddiweddar gan Mad-Science a phawb wedi mwynhau'r profiad ac wedi dysgu drwy gynnal arbrofion gwyddonol ar y cyd.

**Ffarwelio**
Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr i Mrs Nia Jones am ei gwasanaeth clodwiw fel athrawes yn yr ysgol am bron i wyth mlynedd. Bydd colled ar ei hôl i'r plant a'r staff. Dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

Yn ogystal hoffwn ddiolch i'r cymorthyddion sydd hefyd yn gorffen eu cyfnod yn yr ysgol, Miss Rhian wedi gweithio yma am rai blynyddoedd bellach a Miss Carmen ond ers blwyddyn. Dymuniadau gorau i'r ddwy.











# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD 18ED CHWEFROR, 2025

1. **Estynnwyd croeso** cynnes i bawb i'r cyfarfod.

2. **Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod 21ain Ionawr fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. **Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones**, (aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd). (Copiau i'w cael gan y Clerc)

4. **Adroddiad gan Gynrychiolydd Y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug.**
Mae'r Cynghorydd Philip Roberts, cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr ysgol, wedi mynychu'r ddau gyfarfod Llywodraethwyr sydd wedi eu cynnal hyd yn hyn yn y flwyddyn 2024/25. Mynychodd hefyd gyfarfod ym mis Tachwedd rhwng y pennaeth a swyddogion Cyngor Gwynedd ynglyn â chapasiti yr ysgol.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ysgol ym mis Hydref i gyhoeddi blaenoriaethau, cynlluniau i ethol aelodau'r corff i bwyllgorau arbennig, i fabwysiadu polisiau ac yn y blaen. Bydd cynrychiolaeth gan y Cyngor Cymuned ar bedwar pwyllgor statudol sy'n cyfarfod pan fo angen a hefyd ar bwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Adeiladau sy'n cyfarfod nesaf ar 19eg Chwefror.

Ymysg materion sydd wedi eu trafod yn ystod cyfarfodydd 24/25: Capasiti'r ysgol; amgylchedd yr ysgol sef parcio, palmentydd; Tŷ'r Ysgol; cyllid 2025-26.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

5. **Ceisiadau Cynllunio**.
**Rhif y Cais: C25/0083/23/LL**
Dymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le yn cynnwys darpariaeth parcio a thirlunio.
Bod Gwilym, Allt Goch, Cwm y Glo.
**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais.

6. **Cais am grant oddi wrth Llewod Llanrug**
**Penderfynwyd:** Grant o £850 i Llewod Llanrug.

7. **Apwyntio Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewnol**
**Penderfynwyd**: Apwyntio Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2024/2025

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## COFNODION CYFARFOD 4YDD MAWRTH, 2025

**Brookwell Energy / Cegin Storage**
Croesawyd Gary Bird, Simona a Jack Hutchinson o Brookwell Energy, a ddaeth i drafod eu bwriad o gyflwyno cais cynllunio yn dilyn cyfnod ymgynghoriad i osod Cyllun Storio Ynni Batri gyferbyn â Stesion pŵer Pentir.
**Cofnodion 4ydd Chwefror 2025**
Nodwyd fod ansicrwydd yn dal i fod ynglŷn â manylder Capel Glasgoed.
Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:
**Materion o'r Cofnodion**
**Ffordd o Ddeiniolen ger Bryntirion/Rhiwen**
Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn dweud eu bod angen edrych ar y broblem yma, ac y buasent yn gwneud hynny o fewn yr wythnosau nesaf.
**Capel Ebeneser**
Yn dilyn gyrru llythyr pryder am yr adeilad i Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r adeilad a'r blerwch o amgylch y tir, derbyniwyd llythyr yn nodi nad oedd Cyngor Gwynedd yn rheoli'r adeilad ond yn hytrach cwmni o'r enw Socotec UK. Gyrrwyd ein pryderon ymhellach at y cwmni, a ddaeth yn ôl gan nodi na wyddent ddim am yr adeilad o gwbl. Awgrymwyd felly i yrru yn ôl i Gyngor Gwynedd am gyngor pellach.
**Gohebiaeth a Materion Eraill**
**Cysgodfa Llechi, gwaelod Lôn Garet, Dinorwig.**
Gyrrwyd lluniau o'r gysgodfa sydd mewn cyflwr difrifol a pheryglus i'r Cyngor Sir ac i'r Amgueddfa Lechi yn gofyn iddynt atgyweirio, tacluso a'i gwneud yn ddiogel. Mae'r gysgodfa gyda hanes mawr yn ystod blynyddoedd y chwarel, gan mai yn fan hon byddai'r chwarelwyr yn aros i gael eu cludo i fyny i'r chwarel.
**Cynllunio**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
***C25/0073/18/DT - Isallt, Brynrefail, Caernarfon, LL55 3NR***
*Gosod pwmp gwres Riello yng nghefn yr eiddo*
***C25/0088/18/DT - Cae Goronwy, Fachwen, Caernarfon. LL55 3HA***
*Cais ôl-weithredol ar gyfer estyniad cegin i anecs*
***C25/0100/18/LL - Tir ger The Stables, North of Cae Rhos Terrace, Seion. LL55 3AG***
*Un safle teithwyr sipsi yn cynnwys un siale sefydlog, un garafán deithiol, addasu bloc stabl un llawr presennol yn ystafell ddydd/ystafell amlbwrpas, cyfleusterau parcio a throi ar y safle. Mynedfa i gerddwyr a cherbydau a gwelliannau ecolegol*
***C25/0109/18/DT - 3 Efail Castell, Rhiwlas, Bangor. LL57 4EE***
*Codi crib y to 750mm gan ychwanegu dormer ar ongl. Addasu hen estyniad cefn a chynyddu gofod y porth o flaen y tŷ.*
***C25/0062/18/LL - Tir ger Pen y Cefn, Deiniolen LL55 3NA***
*Trosi adeilad presennol yn annedd amaethyddol*

**O Gwmpas y Bwrdd**
**Bethel**
**Wrth Lôn Gefn a Lon Saron**, mae wal wedi cael ei thynnu, gan roi un pren i fyny, sydd yn uwch. Ond mae hyn wedi creu congl ddall yn yr ardal. Gyrru i Gyngor Gwynedd I wneud yn siŵr o ran diogelwch.
**Adwy Stad y Ddôl** - mae yna lamp stryd allan yn ei gwneud yn dywyll.
**Deiniolen**
**Wal Gyferbyn â Fictoria**
Mae dirywiad sobor yn y wal yma. Nid yn unig ei bod yn flêr ei edrychiad ar y ffordd i mewn i'r pentref, ond mae cerrig yn disgyn i'r ffordd ac i'r cae. Mae gordyfiant blêr o'r cae, ac nid oes giât ar y cae chwaith.
**Parcio yng Nghlwt y Bont**
Mae pryder ynglŷn â pharcio ym mhob man yng Nghlwt y Bont. Mae parcio yn andros o broblem, ond mae'r ffordd yn gul, ac mae yn amhosib i ambiwlans, brigâd dân na neb basio llefydd ar brydiau.
**Ffordd Gefn heibio Cae Cerrig**
Mwy o ddefnydd wedi ei gwneud o'r ffordd yma yn ddiweddar, ac mae llifogydd wedi creu anferth o dwll yn y ffordd sydd angen sylw brys.
**Brynrefail**
**Parc Carafanau** - Mae'r cwmni wedi parcio 30 o garafanau dros dro ers misoedd bellach, ac mae'r rhain reit wrth ymyl y ffordd. Bellach mae cyflwr gwarthus arnynt, ac maent wedi newid eu lliw a phallu gyda'r tywydd. Pa mor hir ydi dros dro? Ydi'r safle bellach yn fan masnachol ac ydynt angen caniatâd cynllunio? Os felly, mae angen cael eu symud a'u clirio.

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

## SEDD WAG

### *Oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned?*

Mae cyfle i chi wneud hyn gan ymuno a Chyngor Cymuned Llanberis a Nant Peris fel Cynghorydd. Mae un sedd wag ar ward Padarn (Llanberis) ar hyn o bryd. Gwahoddir ceisiadau ysgrifenedig gan bersonau cymwys erbyn y 7fed o Fai 2025. Anfonir y ceisiadau neu am fwy o wybodaeth at y Clerc Heather Jones

**clerc@cyngorllanberis.cymru**

# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION BYR CYFARFOD NOS FERCHER 9FED O EBRILL 2025 YN Y GANOLFAN AM 7:00PM

**PRESENNOL**
Gwilym Evans (Cadeirydd)
Iola Owen
Emlyn Baylis
Trystan Thomas
Kim Jones
Beth Holding
Iwan Harding
Helen Sharp
Louise Price
Aled Hughes

**YMDDIHEURIADAU**
Rhys ap Gwilym
Llinos Haf Pritchard

**PRIF BENDERFYNIADAU**

**1.** Cafwyd cyflwyniad llafar gan Heddlu Gogledd Cymru ar y sefyllfa troseddu yng Ngogledd Cymru a hefyd yn benodol yn Llanberis. Bydd y Cyngor rŵan yn mynd ati i drafod cyflwyno system camerâu o fewn y pentref.

**2.** Cafwyd cyfranogiad gan aelodau o'r Cyngor.

**3.** Dim datganiad personol.

**4.** Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus ar gyfer trafod llinellau melyn arfaethedig Ffordd Capel Coch gyferbyn a mynedfa'r Capel. Bydd gwahoddiad i'r rhaid sydd wedi gwrthwynebu a chefnogi'r bwriad i'r cyfarfod i'w gynnal yn Y Ganolfan am 7 yn yr hwyr ar y 30ain o Ebrill 2025.

**5.** Cadarnhau gwariant mis Mawrth 2025.

**6.** Trafodwyd unwaith eto'r broblem parhau o ddefaid yn rhydd yn y pentref, penderfynwyd:
Anfon at adran priffyrdd Cyngor Gwynedd i atgoffa hwy o'u cyfrifoldeb yn unol â Deddf Priffyrdd 1980 Adran 155
Gwneud cais am arwyddion rhybuddio gall ddefaid fod ar y briffordd
i. Cyflwyno trefn bugeilio defaid

**7.** Trafodwyd hefyd lleoliad arwyddion 20 m.y.a. ar gyffordd oddi ar y ffordd osgoi ochr Gaernarfon y Pentref. Mae'r mater hwn yn derbyn sylw adran draffig Cyngor Gwynedd ond penderfynwyd gwneud cais am fesurydd cyflymdra ar y lleoliad rhwng V12 a'r gyffordd gan fod honiad bod gorr-gyflymdra yn yr ardal yma.

**8.** Chwyn o fewn y llyn: penderfynwyd gofyn i Barc Padarn am y diweddariad i'r broblem.

**9.** Toiledau - mae trafferthion wedi codi yn ddiweddar lle mae'r toiledau wedi bod yn hwyr iawn yn cael eu hagor yn y boreau; yn anffodus mae hyn yn gallu digwydd pan mae'r ofalwraig arferol ar ei gwyliau. Penderfynwyd byddai aelodau'r Cyngor Cymuned yn helpu'r achos hyn ar y penwythnosau ac yn agor y toiledau yn y boreau.

**10.** Cae Chwarae Dol Elidir - mae sylwadau wedi eu cyflwyno i'r Cyngor bod barbiciws yn cael eu cynnal ar y Cae a bod hyn yn fater o ddiogelwch a gall y teclynnau barbiciws ddechrau tannau. Penderfynwyd gwneud cais i Gyngor Gwynedd i godi arwydd i i wahardd cynnal barbiciws.

**11.** Cadarnhawyd cofnodion mis Mawrth 2025.

**12.** Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 yn yr hwyr.

## Y Gornel Ddarllen

# Podlediad poblogaidd sy'n trafod llenyddiaeth y Gymraeg yn dychwelyd



Mae'r podlediad poblogaidd, *Yr Hen Iaith*, gyda'r Athro Jerry Hunter o Brifysgol Bangor, a'r Athro Richard Wyn Jones o Brifysgol Caerdydd, wedi dychwelyd â chyfres arbennig sy'n esbonio llenyddiaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion lefel A sy'n astudio'r pwnc Cymraeg iaith gyntaf.

Rhyddhawyd y penodau cyntaf yn y gyfres ar ddydd Llun, 24ain Mawrth, a bydd penodau nesaf y gyfres yn cael eu rhyddhau yn gyson wedi hynny. Mae'r podlediad yn mynd i'r afael â thestunau sydd ar y sylabws lefel A Cymraeg, ac yn gwneud hynny mewn modd hwyliog a difyr. Mae'r project mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn y ddwy bennod gyntaf, sydd eisoes wedi eu rhyddhau, bydd Jerry a Richard yn trafod dau glasur, y nofel *Un Nos Ola Leuad* gan yr awdur Caradog Pritchard a'r nofel *Martha, Jac a Sianco* gan yr awdur Caryl Lewis, gallwch wrando ar y penodau hyn yma.

"Mae'r gyfres hon yn mynd i'r afael ar destunau sydd ar y maes llafur Cymraeg lefel A. Felly, mae'n gyfle i wrando, i fwynhau i glywed ambell beth sy'n wahanol a gobeithio eich ysbrydoli wrth i chi adolygu a mynd i'r afael ar y gwaith Lefel A," meddai Jerry.

Mae dwy gyfres wedi'u cwblhau a 62 o benodau wedi'u rhyddhau dros ddwy flynedd, yn denu miloedd o ddilynwyr a derbyn gwobr arian yng ngwobrau British Podcast Award am y podlediad Cymraeg gorau yn 2023. Cafwyd sgyrsiau diddorol ac ysgafn rhwng y ddau am bynciau yn amrywio o'r llenyddiaeth Gymraeg fwyaf hynafol i Bedair Cainc y Mabinogi i glasur Ellis Wynne, *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg*. Fel y dywed Richard am hanfod podlediad *Yr Hen Iaith*:

"Mae'r Americanwr o Cincinnati, Ohio, Jerry Hunter, yn ceisio addysgu rhywfaint arna i, Cymro o ganol Ynys Môn, ynglyn â chyfoeth llenyddiaeth ei iaith ei hun."

Cyfarfu Jerry a Richard ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1986, a hynny wedi i Jerry ddod i Gymru i ddilyn MPhil yn y Gymraeg. Roedd Richard wrthi'n cwblhau'i radd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol, ac mae'r ddau wedi bod yn gyfeillion agos ers hynny. Gan fod Jerry wedi bod yn ceisio darbwyllo'i gyfaill i ddysgu mwy am lenyddiaeth Gymraeg ers blynyddoedd lawer, cytunodd Richard o'r diwedd ac awgrymu gwneud hynny ar ffurf podlediad – a dyna sut y dechreuwyd recordio *Yr Hen Iaith*.

Mae'r ddau bellach yn wynebau cyfarwydd yng Nghymru, ac yn feistri ar eu crefft. Mae Jerry Hunter yn Athro yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor ers 2003. Mae meysydd ei ymchwil yn amrywiol iawn ac mae wedi cyhoeddi am lenyddiaeth Gymraeg o bob cyfnod, o'r Oesoedd Canol i lenyddiaeth gyfoes. Mae'n awdur cynhyrchiol sydd wedi ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn a Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mae wedi cyflwyno a chyd-sgriptio tair cyfres ddogfen ar gyfer S4C.

Mae Richard Wyn Jones yn sylwebydd ar wleidyddiaeth Cymru ac yn llais cyfarwydd iawn ar y cyfryngau. Mae'n Gyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd. Mae ei waith yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth Cymru, gwleidyddiaeth ddatganoledig yn y DG a chenedlaetholdeb. Yn ogystal, caiff ei ystyried fel un o sylfaenwyr Astudiaethau Diogelwch Feirniadol.

Mae'r podlediad ar gael yn gyntaf ar AM, ac mae hefyd ar gael ar YouTube ac apiau podlediad eraill. Mae nifer o'r penodau wedi'u ffilmio yn y Llyfrgell Genedlaethol, a chewch weld rhai o brif drysorau llenyddol Cymru wrth i ni egluro'u perthnasedd i'r cwrs lefel A.

# LLANRUG

**Os oes ganddoch chi stori a lluniau i'w rhannu, neu'n dymuno cyhoeddusrwydd i unrhyw ddigwyddiad, anfonwch neges e-bost - ffionorwig@hotmail.com neu rhowch ganiad ar y ffôn – 07813 299727. Buaswn wrth fy modd yn clywed ganddoch chi. Mawr ddiolch, Ffion.**

**Profedigaeth**

Rydym yn anfon ein cydymdeimlad llwyraf i deulu'r ddiweddar Ann Hughes o Lanrug, gynt o Gaernarfon, fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd fis Mawrth yn 91 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Robert Hughes (Robin), a Mam arbennig Tecwyn a'i wraig Glenda. Nain addfwyn Dyfan ac Anya a chwaer dyner Phyllis a Dennis. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll.

**Gair o Ddiolch**

Dymuna Aled, Llinos a Meirwen a theulu'r diweddar Gareth Wyn Jones, Rhosgadfan ddiolch o waelod calon am yr holl gefnogaeth.

Diolch am yr ymweliadau, cardiau, blodau a nwyddau. Diolch hefyd am y swm anrhydeddus o £1,000 a gasglwyd er cof tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch arbennig i'r Parch John Pritchard am ein cynnal a'i wasanaeth gofalus a theimladwy yn yr Amlosgfa. Diolch i'r organyddes Mrs Eurwen Darwood. Diolch hefyd i Jane a Dafydd o gwmni Ymgymerwr E W Pritchard Llanberis am y trefniadau trylwyr, proffesiynol ac urddasol. Diolch i westy Meifod am y lluniaeth ac i Jan, Tŷ Blodau am y blodau hyfryd.

**Capel y Rhos - Oedfaon mis Mai**

4ydd Mai - Undebol yn Cysegr, Bethel
11eg Mai - Y Barch Nerys Anne Griffiths, ein gweinidog
18fed Mai - Mr Richard Parry Jones, Caernarfon
25ain Mai - Gwasanaeth rhithiol yng ngofal Emyr Williams

**Hafan Elan**

Yn dilyn cinio rhost ardderchog yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda, cawsom gacen penblwydd arbennig i Phil Ford, 8 Hafan Elan. Ymunodd pawb yn y caffi i ganu Penblwydd Hapus iddo.

Yna aethom draw i Galeri, Caernarfon. Cawsom awr o Donic yng nghwmni Dafydd Iwan a Phwyll ap Siôn, yn mwynhau gwrando ar yr hen ffefrynnau a llais Dafydd cystal ag y bu erioed. Diolch i Elizabeth am drefnu'r diwrnod.

Rydym yn meddwl yn annwyl iawn am ddwy o'r preswylwyr sydd wedi derbyn triniaeth yn Lerpwl. Mae Beryl Ellis ac Ann Jones bellach adref ac yn gwella yn araf. Dymunwn y gorau iddynt.

**Noson arbennig yn Y Penbont**

Mae noson arbennig er budd Ysgol Gynradd y pentref wedi ei chadarnhau yn ystod mis Mehefin yn Y Penbont. Bydd cyfle i glywed Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas yn perfformio, yn ogystal â'r band ifanc o Gaerdydd, Dadleoli. Y dyddiad i'w gadw'n rhydd ydy nos Sadwrn, 7fed o Fehefin. Mynediad yn £15, a rhaid archebu tocyn o flaen llaw gyda nifer cyfyngedig yn unig ar gael. Cysylltwch efo Donna i sicrhau eich tocyn (07789 738 649). Y noson i ddechrau am 7.30pm.

## Cangen Merched y Wawr Llanrug

Dr Gwyn Roberts o Ddeiniolen oedd ein gŵr gwadd y mis hwn. Mae wedi bod yn aelod o Dîm Achub Mynydd Llanberis ers deng mlynedd ar hugain.

A hithau'n noson braf ym mis Ebrill, priodol oedd sôn y dylem ystyried y tywydd wrth fynd i gerdded neu ddringo'r mynyddoedd. Mae'n bwysig cynllunio'r siwrne yn ofalus a llenwi'r bag â phopeth y gallem fod eu hangen - rhag ofn. Gall y tywydd newid mor gyflym.

Mae'r ardal yma wedi denu ymwelwyr ar hyd y blynyddoedd. Cofiwn am y tywysyddion a arweinia'r ymwelwyr ar lethrau Eryri yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. William Williams (1805-1861) neu "Will Boots" oedd un o'r tywysyddion cynnar. Roedd ganddo ddiddordeb brwd mewn planhigion prin ac yn cychwyn ar ei deithiau gyda'r ymwelwyr o Westy Fictoria, Llanberis.

Cofiwn wedyn am waith Chris Briggs, perchennog gwesty Pen y Gwryd. Yn ystod y pedwardegau byddai'n casglu criw o wirfoddolwyr at ei gilydd i fynd i helpu rhywun oedd mewn trafferth ar y mynyddoedd.

Mae Tîm Achub Mynydd Llanberis yn ymateb i bob math o sefyllfaoedd ar Yr Wyddfa ac yn yr ardaloedd cyfagos. Mae ganddynt bencadlys yn Nant Peris ers y 70au. Maent wrth law bob dydd o'r flwyddyn, beth bynnag y tywydd. A thywydd gwyntog, gyda llaw, sy'n arwain at y nifer mwyaf o alwadau.

Nid syndod deall mai Tîm Achub Mynydd Llanberis oedd enillydd gwobr gwirfoddoli 2025. Gwirfoddolwyr ydynt i gyd; gwirfoddolwyr sy'n cynnig gwasanaeth proffesiynol.

Diolchodd Bethanne i Dr Gwyn Roberts am sgwrs ddiddorol.

Dymunwyd penblwydd hapus iawn i Pat sy'n dathlu'r mis hwn. Roeddem yn falch o weld Jean yn y cyfarfod yn dilyn triniaeth ar ei llygaid.

Bydd ein cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ar 6ed o Fai yn hytrach na'r 13eg o Fai yn y Sefydliad Coffa am 7.30pm.





# CHWILAIR MIS MAI - TAI BYDDIGIONS

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | D | R | Ll | G | Y | P | I | E | Ch | R | S | E | R | G |
| P | Ch | Y | A | I | N | L | D | Rh | D | L | T | C | E | L |
| L | C | D | N | E | D | A | Y | M | O | E | R | A | N | A |
| A | A | Ll | E | U | E | S | Ng | A | P | G | E | S | D | N |
| S | S | M | R | D | A | B | N | S | L | R | S | T | I | Ll |
| Y | T | Y | Ch | R | Th | R | Ll | T | A | E | G | E | P | Y |
| N | E | U | A | Dd | B | O | D | Y | S | G | A | Ll | E | N |
| Rh | Ll | N | E | C | R | N | E | A | N | Y | W | C | W | R |
| I | P | Y | R | T | Y | D | T | D | E | N | E | O | A | S |
| W | E | Dd | O | B | N | A | S | P | W | O | N | Ch | C | T |
| E | N | G | N | O | B | N | A | Ll | Y | G | C | O | V | N |
| Ll | Rh | S | D | B | R | W | E | R | Dd | I | G | U | Ll | M |
| I | Y | U | I | P | A | R | C | D | I | N | E | F | W | R |
| W | N | P | L | A | S | T | A | N | Y | B | W | L | Ch | Ll |
| A | B | E | C | A | S | T | E | Ll | G | W | Y | D | I | R |

Er bod ambell i dŷ crand yn dwyn y teitl ‘Castell’, tai i bobl fawr neu byddigions oedden nhw erstalwm. Mae un ohonynt i’w gael ym mro’r Eco, sef Castell Bryn Bras. Cofiwch na fyddai ambell i deulu fyddai’n gweithio yn Chwarel y Penrhyn, na’u disgynyddion yn mynd yn agos i Gastell Penrhyn chwaith, hyd yn oed heddiw.

Gallwch ddod o hyd i un o’r lleoliadau yn y chwilair yn Llanfairpwll ac yn Llangollen.

Allwch chi ddyfalu pa leoliad ydy’r lleoliad hwn?

Cewch yr atebion i’r chwilair hwn yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch fod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

BRYN BRAS
CASTELL COCH
CASTELL GWYDIR
CASTELL PENRHYN
ERDDIG
GLANLLYN
GREGYNOG
LLANERCHAERON
NEUADD BODYSGALLEN
PARC DINEFWR
PLAS BRONDANW
PLAS NEWYDD
PLAS TAN Y BWLCH
PLAS YN RHIW
TRESGAWEN



## ATEBION I CHWILAIR MIS EBRILL - CESTYLL YNG NGHYMRU

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | N | I | Ll | Y | W | D | O | L | B | A | D | A | R | N |
| I | R | W | A | C | D | B | R | O | N | Ll | Y | S | D | E |
| N | U | E | N | Ậ | G | I | Ff | E | I | O | S | N | E | T |
| A | Y | Ch | S | M | E | W | B | Th | E | I | C | I | R | C |
| S | P | U | T | R | N | M | D | U | Rh | U | Dd | L | A | N |
| B | Rh | D | E | O | G | A | I | N | Y | Rh | N | E | P | F |
| R | E | I | Ff | B | E | R | O | W | D | O | R | B | Dd | R |
| Ậ | L | C | A | R | R | E | G | C | E | N | N | E | N | I |
| N | R | O | N | E | H | S | A | E | A | T | O | P | Y | N |
| O | W | N | S | P | Y | D | F | R | B | D | S | G | W | A |
| N | G | W | A | D | O | L | F | O | R | W | Y | N | L | R |
| Th | R | Y | N | T | S | O | B | A | L | F | B | D | S | M |
| Ll | E | Ch | Y | B | N | I | D | S | W | R | E | O | Y | U |
| M | A | W | H | A | R | L | E | Ch | I | G | R | Y | R | F |
| D | C | I | L | G | E | R | R | A | N | Ng | E | T | D | Ch |

Dyma’r datrysiad i’r chwilair oedd yn rhifyn mis Ebrill o’r Eco.

Yr ateb i’r cwestiwn - **Pa gastell yn y chwilair nad yw’n gastell go iawn? Castell Penrhyn.**

Gobeithio eich bod i gyd wedi gallu ateb y cwestiwn a chwblhau’r chwilair.

BIWMARES
BRONLLYS
CAERGWRLE
CAERNARFON
CARREG CENNEN
CILGERRAN
CONWY
CRICIETH
DINAS BRẬN
DINBYCH
DOLBADARN
DOLFORWYN
DRYSLWYN
HARLECH
LLANSTEFFAN
PENRHYN
RHUDDLAN
Y BERE





www.ecorwyddfa.co.uk

# Garddio

## MAI

**Wrth deipio hwn (ym mis Ebrill) mae hi wedi bod yn sych a braf. Mae efe a minnau wedi eistedd allan sawl gwaith i gael paned a chinio a hyd yn oed wedi mentro i siorts. Ond bellach mae hi wedi oeri ac rydym wedi cael ychydig (er nad digon i arddwr) o law er bod addo trochfa go iawn yfory.**

Gan fod y Pasg yn hwyr a'r rhuddygl a blannwyd wedi egino (sy'n dangos bod y tir yn ddigon cynnes i blannu pethau eraill) plannais y tatws cynnar *'Maris Bard'* yn yr ardd ac mewn pot mawr wrth ochr drws y tŷ gwydr. Mae'r rhai yn y ty gwydr wedi eu priddo sawl gwaith a does dim lle bellach i ychwanegu mwy o gompost di-fawn. Mae'r planhigion ddaeth drwy'r post yn swatio'n ddiogel mewn potiau mwy yn y ty gwydr, tan fydd unrhyw berygl o rew drosodd. Rwyf wedi dysgu trwy brofiad bellach bod angen ymateb i ragolygon y tywydd ac anwybyddu'r cyfarwyddyd sy'n cael ei roi i lefydd nad ydynt fil o droedfeddi i fyny. Mae hi'n oerach yma na llawer i le, felly pwyll bia hi (sy'n anodd i rywun diamynedd fel fi).

Os ydach chi'n garddio'n is i lawr nag yma, byddwch ofalus mae rhew yn dal yn bosibilrwydd felly edrychwch ar ôl eich planhigion newydd, eiddil a drud!

**Tasgau**

1. Ym mis Ebrill a Mai dwi'n teimlo mod i angen mwy o silffoedd ffenast. Mi fyddai'n cael y gwyllt a throsglwyddo rhai pethau i'r ty gwydr gan groesi fy mysedd na fydd y tymheredd yn disgyn yn rhy isel gyda'r nos ac yn lladd y planhigion symudais yno. Bydd rhai'n cael eu symud allan yn y dydd ac yn ôl i mewn gyda'r nos. O leiaf mae garddio'n fy nghadw fi'n ffit!
2. Cofiwch briddo'r tatws cynnar ar ôl iddynt egino. Bydd y pridd, compost di-fawn neu doriadau gwair o'r lawnt (os nad ydach chi ddim yn torri'r lawnt ym mis Mai) yn eu gwarchod. Os ydy hi wedi barrugo ac mae rhai o'r egin tatws allan, peidiwch â phoeni, dyfriwch nhw efo dwr cynnes (claear yn hytrach na phoeth) cyn i'r haul eu crasu ac mi fyddan nhw'n iawn.
3. Os oes ganddoch flodau blwyddol yn barod i'w plannu (rhai wedi eu tyfu o hadau eich hun; rhai drwy'r post neu o'r ganolfan arddio leol) gallwch fentro eu plannu allan yn yr ardd neu mewn potiau erbyn diwedd mis Mai (oni bai bod y rhagolygon tywydd yn gaddo och a gwae!). Byddwch yn barod i daenu *horticultural fleece* i'w gwarchod dros nos os oes angen.
4. Mae'r ddwy goeden, eirin ac eirin bach (damson) wedi bod yn llawn blodau eto eleni ond dyn a ŵyr os gawn nhw lonydd gan yr adar os bydd ffrwyth o gwbl. Ta waeth, maen nhw'n hardd beth bynnag.
5. Fel mae'r cennin pedr (a bylbiau amrywiol eraill) yn darfod blodeuo PEIDIWCH â thorri'r dail. Torrwch y pennau a bwydwch y dail sydd ar ôl efo bwyd hylifol llawn potasiwm neu wrtaith gwaed asgwrn a blawd pysgod. Maent angen o leiaf 6 wythnos (mwy os yn bosib) os ydach chi am gael sioe dda o flodau yn 2026. Mae'r defaid wedi bwyta rhai sydd y tu allan i ffiniau'r ty acw, felly debyg byddai angen plannu mwy, eto byth, yn fuan.
6. Daliwch i chwynnu ond cofiwch adael unrhyw beth allai fod yn blanhigyn defnyddiol sydd wedi hadu ei hun. Os dydach chi ddim yn siŵr, arhoswch am ychydig, gallwch ei godi ymhellach ymlaen, byddai'n bechod colli planhigion defnyddiol sy'n rhad ac am ddim. Mae'r bonet nain (*aquilegia*) yma wedi hau ei hun ac yn rhoi pleser i mi a neithdar a phaill yn gynnar yn y tymor i'r gwenyn.



**Bonet Nain**

7. Plannwch beth bynnag allwch chi yn ystod mis Mai. Llysiau wrth gwrs ond plannwch bethau rydach chi a'r teulu'n eu hoffi. Dim pwynt plannu cabaits os dydach chi ddim yn eu hoffi.
8. Mi ydw i'n hoff iawn o arlleg ac yn ei dyfu bob blwyddyn. Roeddwn i bob amser yn amheus o'r garlleg gwyllt (*ransoms*) neu *allium ursinum* i roi ei enw Lladin iddo. Enwau Cymraeg arno yw Craf y Geifr neu Garlleg y Brain. Mae'n tyfu'n wyllt o Ebrill tan ddechrau mis Mai ac yn hawdd iawn i'w fforio. Fodd bynnag mae modd ei blannu mewn llecyn tamp cysgodol a'i gadw mewn trefn yn eithaf hawdd. Gallwch ei fwyta pan yw'n fach fel dail salad neu wedi ei falu'n fan dros saig. Mae ychydig o ddail yn mynd yn bell ond maent yn ychwanegu blas i bryd. Mae'n anghyfreithlon i godi'r bylbiau heb ganiatâd y tirfeddiannwr. Gallwch gasglu'r dail wrth gwrs, dylai ryw lawiad neu ddwy fod yn ddigon. Gall y dail oroesi yn yr oergell mor hir â dail salad ac fe allwch eu rhewi am oddeutu 6 mis. Gallwch eu malu'n fan, a'u cymysgu efo menyn a phinsiad o halen mor a rhewi'r peli bach mewn papur 'greaseproof.' Bendigedig yn toddi dros lysiau tymhorol poeth neu efo eog wedi ei gogiono mewn ffoil yn y popty. Does dim tystiolaeth wyddonol bendant ond mae o i fod yn llesol ac yn llawn fitamin C.



Garlleg gwyllt

9. Fel arall plannwch lysiau o bob math. Tatws ail gynnar a diweddar, moron, pys, ffa o bob math, betys ac un o fy ffefrynnau fi, Ysgall ddail yr Enfys (Rainbow Chard). Mentrwch. Ewch ati i blannu beth bynnag ydach chi'n hoffi ei fwyta.
10. Mae gen i ambell i blanhigyn tomato - *Sungold* a *Super Mama*; ciwcymbers *La Diva* allwch chi eu tyfu y tu allan i'r ty gwydr; chillies *Chilli de Cayenne* a blodau amrywiol (sy'n fach ar hyn o bryd) fydda'i angen eu plannu a'u rhannu yn ystod mis Mai. Mae'r rhai sy'n fy adnabod fel arfer yn cychwyn sgwrs efo, "Dydw i ddim isio tomato diolch…" Be sy'n bod arnyn nhw dudwch?

**Rhosyn Mynydd**

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.

chwilota.wordpress.com

# Pandai a Ffatri Wlân

Cyn cychwyn colofn y mis hwn rhaid cywiro un camargraff a roddais y mis diwethaf. Pan gafodd William Owen lês gan John Rowlands, Plastirion i adeiladu *"factory or carding mill"* ar ran o dir Tyddyn Corn, dywedais na symudodd i fyw yno, ond fod gwehydd a phannwr yn unig yno yn ôl Cyfrifiad 1841. Anghywir! Yr oedd William Owen, ei wraig, Mary a'i blant Thomas (8 oed) a Mary (2 oed) yn byw yn Factory Pontrug. Yno y bu aelodau'r teulu'n byw hyd o leiaf 1921, cyfnod o bedwar ugain mlynedd. Ond roedd hon yn ffatri wlân newydd, a chawn mwy o'i hanes yn nes ymlaen.

Roedd melin Glangwna yn bod bron i ganrif ynghynt o leiaf. Cyfeiriais at gytundeb yn 1772 rhwng William Howell, Glangwna a Joseph Williams, yn rhoi hawl adeiladu tŷ a melin yno am dâl o £15 y flwyddyn. Yn y cytundeb hwnnw mae William Howell yn cael ei ddisgrifio fel *"fuller",* sef y gwaith a wneid mewn pandy. Roedd William Howell yng Nglangwna o leiaf naw mlynedd cyn y cytundeb. Mae'n bedyddio ei blant yn Eglwys Llanrug yn 1763, 1764, 1765, 1770 a 1771, ond ym mhob un o'r cofnodion hyn mae'n cael ei ddisgrifio fel *'dier'*, nid pannwr.

Mae nifer o gyfeiriadau cynharach yng Nghofrestrau Plwyf Llanrug at waith y pannwr a ga'i ei gynnal yng Nglangwna. Mae dau bannwr yn ymddangos ar gofrestr 1753 – William Parry, *fuller*, Glangwna ac Owen Griffith, *fuller*, Bodrual. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae William Parry, wedi gadael Glangwna, ac yn ymddangos fel pannwr ym Modrual. Ond mae Owen Griffith yn ôl ym Modrual erbyn 1761. Methais a darganfod unrhyw gyfeiriad at yr un o'r ddau wedi hynny.

Yn 1761 hefyd mae Robert Edwards a Mary, ei wraig, yn bedyddio merch o'r enw Lowry yn eglwys y plwyf. Gwyddom mai pannwr oedd hwn hefyd o ran galwedigaeth, ac mai ym Mhandy Glangwna roedd yn gweithio. Bu farw yn 1781 yn 72 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanrug. (Mae ei fedd yn nhalcen yr eglwys, yn wynebu am bentref Llanrug, a thyfiant yn cuddio rhan helaeth o'r garreg bellach). Dyma'r unig gofnod ar garreg fedd ym mynwent anferth eglwys Llanrug sy'n cofnodi *"fuller"* fel galwedigaeth. Mae'n darllen fel a ganlyn: *"Here lieth the body of Robert Edwards, fuller, who departed this life on the 17th day of May 1781 aged 72 yrs."* Yn dilyn, ceir englyn –

Bum wrol nerthol fynny
A chalon
Chwi welwch lle rwdwy
Diryw ni fu'i dramwy
Dall a mud nid alla mwy.




Bu Mary, ei wraig, farw un-ar-ddeg mlynedd yn ddiweddarach, a'i chladdu ar 5ed Awst 1792, a hithau'n 76 oed. Enwir y cartref fel Pandy Glangwna. Mary Jones yw'r enw ar y garreg fedd, ond cofrestrir y farwolaeth fel Mary Parry. Mae adnod o'r Salmau wedi ei cherfio ar waelod y garreg. Dengys hyn fod Robert Edwards yn eithaf cefnog. Ni allai llawer o bobl gyffredin y cyfnod hwn fforddio carreg fedd syml, heb sôn am un ag englyn ac adnod wedi eu cerfio arni.

Yn 1830 yng Nghofrestr Claddedigaethau Llanrug y deuthum ar draws y cyfeiriad olaf at Bandy Glangwna. Yn y flwyddyn honno claddwyd Elizabeth Roberts, 74 oed o Bandy Glangwna *"resided at Caernarfon".* Gallai fod yn ferch i Robert a Mary, a chwaer i Lowry.



**Bedd teulu Factory Pontrug.**

**Ffatri Pontrug**

Yn 1841 mae William Owen a'i deulu ifanc yn byw yn Factory Pontrug. Yno hefyd mae Hugh Williams, gwehydd a John Jones, pannwr. Mae William Owen ei hun yn cael ei ddisgrifio fel *"woollen carder".* Mae dau deulu yn byw yn Tai Melinyddion – Thomas Evans a ddisgrifir fel melinydd, a William Lewis*, "mill carrier".* Mewn rhan o fferm Dolgynfydd Isaf a ddisgrifir fel *"outhouse",* mae William Williams (14 oed) a ddisgrifir fel *'mill carrier'* a Richard Rogers (20 oed) sy'n felinydd. Dyna felly saith o ddynion sy'n debygol o fod â chysylltiad â'r Ffatri.

Yn 1851 mae William Lewis, Thomas Evans a'u teuluoedd yn parhau yn Tai Melinyddion, a William Owen bellach yn disgrifio'i hun fel gwehydd.

Prin yw'r newidiadau erbyn 1861. Mae Margaret, merch William Owen yn briod gyda Thomas Roberts (chwarelwr), ac yn byw gyda'i thad a mam a'i chwiorydd yn y Ffatri. Yno hefyd mae John Jones, gwehydd ac Ann Rowlands sy'n disgrifio'i hun fel *"servant at woollen factory"*. Anodd gwybod a'i morwyn yn y cartref yntau yn y ffatri ydoedd. Mae dau deulu yn Tai Melinyddion. Nid yw Thomas Evans a'i wraig yno, ond mae eu plant yno gyda'u nain weddw. Yno hefyd mae Robert Roberts a'i deulu ond yn disgrifio'i hun fel labrwr.

Erbyn 1871 William Owen sy'n gofalu am y Ffatri Wlân, gyda Griffith Owen yn wehydd. Nid yw'n ymddangos fod unrhyw gysylltiad â'r ffatri gan deuluoedd Tai Melinyddion.

Yn 1881 *"Wool manufacturer"* yw William Owen, ond byddai farw o fewn chwe mlynedd, ac erbyn 1891, ei weddw, Mary Owen, yn 78 oed sy'n *"keeping a wool factory".*

Mae'n ymddangos fod y ffatri wedi peidio â bod yn ystod y degawd nesaf, a does dim sôn am waith yn ymwneud a gwlân yn 1901. Bu Mary Owen farw yn 1903 yn 90 oed, ond roedd y teulu yn dal yno yn 1911, ac erbyn 1921 dim ond Sarah a'i chwaer Jane oedd yn parhau yn y cartref. Sarah, mae'n debyg, oedd yr olaf o'r teulu i fyw yno. Bu hi farw yn 1930 yn 81 oed.

Rhoes y ffatri wlân fywoliaeth i'r teulu am tua 60 mlynedd, ac fel yn achos Robert Edwards, Pandy Glangwna, roeddent yn ddigon cefnog i dalu am gerrig bedd go sylweddol ym mynwent Llanrug. Mae bedd cist i dair o enethod William a Mary Owen – Sarah (marw'n 4 oed yn 1845), Ellin (marw'n 26 oed yn 1868) a Mary (marw'n 23 oed yn 1871). Mewn rhan arall o'r fynwent mae dwy garreg ben a dwy gist, y cyfan wedi eu hamgylchynnu â rheiliau, yn cofnodi marwolaethau gweddill y teulu.

Os oes gan unrhyw un fwy o wybodaeth am y ffatri hon ym Mhontrug, cysylltwch. Gallwch anfon at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 36

Dyma hanes cath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Mae cathod wedi bod yn bwysig i ddynoliaeth ers canrifoedd. Mewn man claddu yng Nghyprus dros 9,500 mlynedd yn ol mae tystiolaeth archeolegol bod cathod a dynion yn cyd-fyw. Erstalwm yn yr hen Aifft roedd cathod yn cael eu haddoli! Mi fyddai Bob wrth ei fodd. Roeddent yn cael eu mymïo, a hynny wedi cael eu gwisgo mewn gemwaith aur i ddangos statws pwysig eu perchnogion. Roeddent hefyd yn derbyn canmoliaeth am ladd nadroedd gwenwynig, cnofilod (rodents) ac adar oedd yn chwalu cnydau'r Eifftiaid ynghyd ag amddiffyn y Pharaoh ers o leiaf brenhinlin (dynasty) cyntaf o'r Aiff. Canfyddwyd olion ysgerbydol o gathod ymysg nwyddau angladdolyn dyddio nol i'r 12fed brenhinlin.*

*Bu cathod yn enwog am amrywiol resymau ar hyd yr oesoedd Crème Puff (1967 -20050) yw'r gath hynaf a gofnodwyd, bu fyw nes oedd yn 38 oed. Yn Nistyllfa Glenturret yn Crieff, yn yr Alban, Towser (The Mouser) sydd a'r record (Record Byd Guiness dim llai) am ddal y mwyaf o lygod, sef 28,899. Gobeithio nad oedd o'n eu bwyta nhw i gyd! Wrth gwrs mae cath hynod o enwog o'r enw Bob yn ysgrifennu i Eco'r Wyddfa bob mis. Dyma fo felly'n dweud ei hanes:*

"Y peth cyntaf dwi'n ei wneud pan mae hi'n agor y drws yn y bore (ocê ar ôl cael brecwast, does yna'r un gath gall yn y byd hwn yn gallu gweithredu heb llond ei fol ben bora!) ydy tsiecio os ydy hi'n wlyb, oer neu gwyntog neu gyfuniad o'ramodau hyn. Os nag ydy hi'n rhy wlyb neu oer (dwi'n troi nôl wrth y drws a'i nelu hi am fy hoff gadair o dan y bwrdd, os ydy hi) dwi'n mynd allan i wneud be mae'n rhaid i gath ei wneud. Dwi'n gwneud dipyn o ymarfer corff a neidio ar ben y peth dŵr adar i gael diod. Ydw, mi ydw i'n gwybod bod gen i bowlen o ddŵr yn y ty (efo fy enw fi arni) a sawl powlen y tu allan , ond dwi'n hoffi cael ystwytho wrth neidio i fyny i iro'r llwnc. Pwy a ŵyr efallai ryw ddiwrnod fyddai'n ddigon lwcus i ddal un o'r pethau bach pluog 'na oedd heb fy ngweld i.

Y cam nesaf, ydy mynd am dro o gwmpas fy nhiriogaeth i weld beth sy'n digwydd a phwy sydd o gwmpas. Fel deu-droediaid mi ydach chi'n sbïo a gweld blodau neu chwyn a ballu, ond mae cathod fel fi'n sbïo i mewn i bob twll a chornel i weld be welwn ni ac ogleuo beth allwn ni ddim ei weld. Fel arfer fawr o ddim, ond weithiau, jest weithiau mae yna rwbath bach blewog neu bluog o fewn cyrraedd…




Heddiw mae'r ddeu-droed fach yn dod yma! Dach chi'n gwybod, yr un sydd yn dod a'r bwystfil mawr coch, bywiog, bownsiog sy'n fy nychryn i, efo hi. Ond dim ond y hi sydd wedi dod heddiw efo ryw blanhigyn gwyrdd, er mwyn i fy neu-droed leiaf i, ei ail-blannu. Pam na fedrith hi wneud hynny drosti ei hun, cathod a ŵyr? Mae fy neu-droed leiaf i hefyd yn rhoi planhigion i'r un lleiaf efo llwyth o gyfarwyddiadau o beth mae hi i fod i neud iddyn nhw. Wir yr, mi fysai'n haws iddi hi eu tyfu nhw ei hun. Mae'r deu-droediaid yma'n bethau rhyfedd.

Wedyn mae'r ddwy'n eistedd wrth y peth hirsgwar mawr yn edrych ar y teclynnau hirsgwar bach mae'r deu-droediaid yn treulio llawer gormod o amser yn tapio a sbïo arnyn nhw. Mae'r ddwy yn gwneud sŵn od, chwerthin maen nhw'n ei alw fo. Dwi'n smalio peidio cymryd sylw, wedi'r cyfan, mi ydw i wedi clywed (yn fy mywyd blaenorol) mewn iaith wahanol i'r hyn sy'n cael ei siarad yma bod chwilfrydedd yn gallu lladd cath (*curiosity killed the cat*). Dwi felly angen bod yn ofalus achos dydw i ddim yn hollol siŵr faint o fy naw bywyd sydd gen i ar ôl erbyn hyn.

Ond fel arfer, allai ddim maddau. A phan dydyn nhw ddim yn meddwl mod i'n gweld beth sydd ar y teclynnau bach dwi'n edrych, ac yn gweld llun. Llun o lle mae'r deu-droediaid yn hoffi ei yfed. Hylif ych a fi a chwpan sy'n dal y stwff afiach maen nhw'n ei alw'n goffi.

Ond pam maen nhw'n chwerthin? Mae'n rhaid i mi ganolbwyntio, dydy hi ddim bob amser yn amlwg i bedeir-troediaid fel fi, pam fod y deu-droediaid yn chwerthin.

Wrth gwrs dydw i ddim yn gallu darllen y symbolau rhyfedd maen nhw'n hoffi eu rhoi ar bethau ond wrth glustfeinio dwi'n deall bod 'caffi' wedi agor wrth ymyl ble mae'r lleiaf yn byw ac enw'r 'caffi' yw 'Bobcat'! Bobcat?

Wel ar f'enaid i! Dwi'n enwog unwaith eto! Rhyfedd sut mae fy mhoblogrwydd i'n teithio y tu hwnt i'r mynyddoedd a chaeau annwyl hyn. Taswn i'n cael yfed llefrith (wrth gwrs allai ddim cael l*actos* fel cath) mi allwn i wirio ei honiad bod yna banad da i'w gael yno.


Ond ar hyn o bryd mae'n rhaid i mi fodloni ar fod yn ddigon enwog i gael 'caffi' wedi ei enwi ar fy ôl i. Wel wir, pwy fasa'n meddwl. Dwi wedi synnu cymaint dwi'n gadael i'r ddeu-droed fach roi mwythau i mi heb ymosod, sy'n syndod i mi ac iddi hithau.

Mae'n braf bod yn gath weithiau, yn enwedig yn gath enwog, er na fyddai'n deall byth y pethau rhyfedd mae'r deud-droediaid yma'n eu gwneud."







## Tyddyn Teg
**Bwyd - Tir - Pobl**

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

# Ar ben arall i'r lein

Mae pethau wedi deffro o'r diwedd: cychod allan; brithyll yr enfys arbennig wedi eu rhoi yn y Dywarchen; yr haul yn gwenu; a phawb i weld yn weddol gyffyrddus gyda'r arolygon. Tydi'r hen haul 'na a thipyn o gynhesrwydd o gwmpas y lle'n gwneud gwahaniaeth yn tydi.

Dydd Mawrth, 1af Ebrill, ar agoriad Dywarchen roedd prosesiwn o sgotwrs yn anelu am Ryd Ddu. Hawdd gweld pam o weld safon y brithylliaid gafodd eu stocio'r diwrnod cynt – rhai hyd at tua tri phwys. Cofiwch eleni i nodi pwysau a chael llun o'r pysgodyn arbennig a ddaw i'r rhwyd, gan y bydd Tlws Llyn y Dywarchen yn cael ei roi am y sgodyn trymaf. Roedd bwriad i wneud hyn yn 2024, ond er cael pwysau rhai o'r pysgod, yn anffodus nid oedd llun na thyst i gadarnhau hyn wedi dod i law.

Fodd bynnag, a throi nôl at y diwrnod agoriadol, er bod yr haul yn gwenu roedd gwynt oer yn dod o gyfeiriad Drws y Coed. Da i ddim! Ac felly y bu pethau am ddau ddiwrnod, er bod cryn nifer ar y glannau a'r tri chwch allan ar y Llyn. Daeth rhywfaint o adroddiadau o'r daliadau; rhai'n cwyno nad oedd rhai o'r pysgod ond yn pwyso rhyw bwys. Tydi hi'n anodd plesio rhai yn tydi! Mi fuaswn i wrth fy modd o fod wedi cael un o'r pysgod hynny i'r badell, ond yn anffodus mi oedd y gwaith gweinyddol yn fy nghadw o flaen y cyfrifiadur! Ydi, mae'r gwaith yma'n cynyddu, a dim seibiant i'w weld ar y gorwel. Rwy'n beio'r gweithio gartref 'ma! Mae nifer arall wedi dal sylw ei bod bron yn amhosib cael gafael ar neb dros y ffôn: canu a chanu am amser maith, a neb yn ateb. Ond fel yna mae pethau o bosib yn y byd modern newydd sydd o'n cwmpas.

Dwi'n crwydro eto! Felly, rhaid troi nôl eto at y sgota. Er bod Dywarchen wedi bod yn araf i rai, mae eraill, fel Goronwy Roberts, Llanrug, yn dangos sut mae gwneud pethau. Mae'n argoeli'n dda i badelli Llanrug eleni! Da yw clywed fod yr afonydd yn dechrau arni, a bod y Rhythallt yn sgota'n reit dda. Ar y funud, mae Ian Williams, Llanberis, yn dangos i bawb sut mae dal! Dyma frithyll brown arbennig, tua dau bwys, ddaliodd Ian. Rwy'n deall hefyd fod yna eraill o Lanberis yn ceisio tynnu gwybodaeth ganddo ar sut i fod yn sgotwr mor arbennig.



**Brithyll brown 2 bwys i Ian Williams**

Mater sydd wedi bod yn gryn siom yw sut mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru yn gweithredu o gwmpas y lle. Neu, mi fuasai'n fwy cywir sut nad ydyn nhw'n gweithredu mewn llawer ardal yng Ngwynedd. Nid ein lle ni fel Cymdeithas ydi cyfeirio at ddalgylchoedd eraill, ond yn sicr mae eisiau crafu pen yn ddifrifol ynghylch beth sy'n mynd ymlaen – neu ddim yn mynd ymlaen – ar ddyfroedd Arfon. Yn dilyn sylwadau mewn cyfarfod o Grŵp Pysgodfeydd Gogledd Cymru, fe drefnwyd cyfarfod ar 2ail Ebrill yn Nefyn, ble cafwyd cyfle i drafod ein pryderon gyda rhai o brif swyddogion yr Ymddiriedolaeth. Be ddaeth allan o hyn i gyd? Dim llawer yw'r ateb. Ond yn sicr, tydi'r llaw dde ddim yn gwybod yn iawn be mae'r llaw chwith yn ei wneud na'i ddweud. Un peth sy'n tynnu ein sylw ni oll ydi bod rhywbeth mawr o'i le pan fo un cyfarwyddwr a dau swyddog wedi rhoi'r gorau iddi o fewn ychydig wythnosau.

Un pwnc o ddiddordeb i ni yma oedd ceisio cael canlyniadau'r *Prosiect Torgoch,* cynllun a gafodd £259,000 gan y *Loteri Treftadaeth.* Yr ateb oedd bod y prosiect ar ben a bod y swyddog oedd yn gyfrifol am y gwaith wedi ymddiswyddo. Sut mae'r arian wedi ei ddefnyddio? Cawsom rhyw eglurhad fod hyn a hyn wedi ei wneud; ond mewn difrif, doedd hyn ond ail wneud gwaith yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru a Dr Robin Parry wedi ei wneud flynyddoedd yn gynharach. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gorff cyhoeddus, ac felly ni fydd yn bosib gwneud cais iddynt am y gwariant. Rhaid crafu pen ynghylch y ffordd o gael y maen i'r wal yn y fan yma. Ond diddorol fydd gweld be gaiff ei roi fel gwybodaeth i'r Loteri.

Faint sydd wedi sylwi ar y wybodaeth a gyhoeddwyd bod taliadau i barcio ym Maes Parcio Pen y Pass wedi codi'n sylweddol, a bod ymwelwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth *'Park & Ride'*? Syniad da, yn de! Ond y broblem yw bod cael lle i barcio ym mhentref Llanberis yn amhosib. Wel, dyma'r diweddaraf i chi. Pen Llyn yw'r lle rwan! Parcio am ddim, a dal y bws i Ben y Pass heb orfod mynd ymhell. Ydi, mae Pen Llyn yn lle delfrydol; ond fel ag y mae, mae'n amhosibl parcio yno. Ffodus yn de bod y Gymdeithas yn berchen ar lecyn da yno. Parcio hwylus i aelodau! Mae ymuno'n ddigon rhesymol, a llefydd parcio preifat ar gael mewn llawer i le poblogaidd.

Ydi, mae llawer o diroedd y Clwb yn boblogaidd, a dyna'r holl reswm ein bod wedi bod dros nifer fawr o flynyddoedd yn prynu i sicrhau bod hawliau'n aros mewn dwylo lleol. Mae nifer fawr yn mwynhau ein croeso. Ond mae rhai hefyd yn amharchu'r polisi o groeso. Y broblem fwyaf yw baw ci: mae'n frith ar ein maes parcio yn Crawia ac ar y llwybr wrth ochr Llyn Tywod. Man arall yw'r llwybr sy'n arwain i Felin Bron Seiont, Pont Rug. Drosodd ar y Llyfni, mae'r llwybr sydd wedi ei greu gan Gyngor Gwynedd fel llwybr cyhoeddus yn warthus. Does dim byd wnaiff droi arnoch wedi pysgota yn nhwll nos na sylwi eich bod wedi cerdded trwy'r budreddi. Felly, y negas yw: codwch wastraff eich ci! Bydd camerâu yn cael eu gosod yn fuan. Felly, efallai cawn luniau o'r criw di-fater.





**Lle da i barcio a dal y bws - Pen Llyn**

Mae tipyn o ddiddordeb yn yr ychydig farddoniaeth rwyf wedi cyfeirio ato dros y misoedd diwethaf. Ac felly, dyma i chi un o waith Richard Lloyd, o Fethel. Er nad ydi o'n sgotwr, mae wedi cael ei fyddaru dros y blynyddoedd gennym ni'r genweirwyr. Dyma ddaeth i'w feddwl i ni oll gael dathlu tymor newydd:

***Mawrth 3ydd***
*(Diwrnod cyntaf y tymor pysgota)*

*I'r llyn, a'r merddwr llonydd – yw'r alwad*
*i'r heliwr afonydd;*
*Yr hen reddf sy'n troi yn rhydd*
*wialenni aflonydd.*

*RLJ*

Y mis nesaf, gobeithio bydd tipyn mwy o ddaliadau, yn enwedig gwyniedyn neu ddau.

**Huw Price Hughes**

# AWR FAWR CLWB RYGBI CAERNARFON



Ar Sadwrn olaf Mawrth, cafwyd chwip o gêm rygbi draw ar faes clwb Caernarfon. Roedd Nant Conwy wedi teithio i herio'r Cofis, gyda'r ddau dîm heb golli gêm gynghrair eleni. Denwyd torf sylweddol. Gyda thri munud i fynd, roedd y Cofis ar y blaen, 32-25. Gyda munud i fynd ac ymdrech arwrol, dyma'r Nant yn croesi, a'r trosiad yn unioni'r sgôr. Dau dîm blinedig. Allai tîm Caernarfon ail ymgryfhau am y Sadwrn i ddilyn?

Ymlaen wythnos, ac mae rhyw fil o gefnogwyr Caernarfon (ymdrech arbennig), wedi teithio i lawr i Gaerdydd. Yno, ar y 'cae mawr' mae Caernarfon yn herio Athletig Penybont yn rownd derfynol Cwpan Clybiau Adran 1 y pyramid Cymreig. I gyrraedd y ffeinal, roedd Penybont wedi ennill eu gemau'n weddol rwydd – rhai o 30 pwynt. Anoddach oedd taith Caernarfon, a rhaid oedd cipio tipyn o 'scalps' drwy ysbryd tîm rhyfeddol ac amddiffyn arwrol. Ar y sail yma, Penybont efallai'n ffefrynau!



Gwawriodd y Sadwrn, yn heulog ddi-wynt. A fuasai Caernarfon yn baglu? A fuasai'r achlysur yn ormod? Beth ŵyr y Gogs am rygbi? Criw hyderus o gefnogwyr Penybont oedd yn mynd i mewn i'r Stadiwm o'n blaenau.

Daeth y ddau dîm i'r cae. Ar yr olwg gyntaf roedd Penybont i weld yn dîm aeddfed, a phrofiad o rygbi cynghreiriol caled i'w cynnal. Rhai yn amlwg wedi chwarae ar lefel uwch. Yna'r Cofis. Tawel, edrychiad cyflym i fyny at eu cefnogwyr, ambell i gyfarchiad personol â'i gilydd. Roedd y deg munud cyntaf yn allweddol.

Caernarfon yn cicio i ffwrdd o'r goleuni i dywyllwch a chysgod. Am bum munud Caernarfon yn pwyso, a Phenybont yn cael trafferth clirio. Ymlaen â Chaernarfon, ac wedi pum munud, cic gosb i'r Cofis. O 20 metr, y gic yn llwyddiannus. **3 – 0.**

O'r cychwyn, roedd yn amlwg fod rheng ôl y Cofis yn elfen gref o'u plaid. Gyrru ymlaen fel uned a chystadlu am bob pêl rydd. Wedi 11 munud, cic arall, wedi i ail-reng Penybont droseddu trwy neidio a rhwystro yn y llinell. Y dibynadwy Aled Jones yn hollti'r pyst. Rhyw wên gan Eifion ei dad. **6-0.**

Dechrau da; ond roedd arwyddion, gyda haneri Penybont yn rhyddhau pêl-gyflym, y gallai olwyr Penybont brofi'n uned fygythiol. A phrofwyd hynny wedi 18 munud. Pêl i fyny o gefn y llinell, pas hir yn curo'r amddiffyn yn y canol, a phas olaf fflat i roi'r asgellwr drosodd yn y gornel. Ni lwyddwyd gyda'r trosiad, ond roedd bygythiad olwyr Penybont yn amlwg. **6-5.**

Yn ôl daeth y Cofis gydag ymateb rhyfeddol. Ymhen 2 funud, gyriad grymus gan y blaenwyr, a Phenybont yn troseddu trwy ladd y bêl ar y llawr. Un o'r chwaraewyr yn ymateb yn eiriol tuag at y dyfarnwr.  Symud ymlaen 10m. Y

## Perfformiadau Da i Ferched Cymru

Ym mis Ebrill roedd Merched Cymru yn dychwelyd i'r cae ar gyfer dwy gêm yng Nghynghrair y Cenhedloedd.

Roedd y merched eisoes wedi chwarae dwy gêm yn eu grŵp. Colli eu gêm agoriadol draw yn Monza o 1-0 yn erbyn Yr Eidal o 1-0, a gêm gyfartal gartref ar y Cae Ras yn erbyn Sweden ddyddiau wedyn.

Ond cyn wynebu Sweden unwaith eto roedd gêm gartref yn erbyn Denmarc yng Nghaerdydd i'r merched. Cafodd Cymru'r dechreuad gwaethaf posib i'r gêm wrth i Ddenmarc fynd ar y blaen wedi 7 munud. Signe Bruun yn rhwydo i'r ymwelwyr gydag ergyd i gornel isaf y rhwyd. Roedd Denmarc yn pwyso a fu bron iddynt ddyblu eu mantais.  Cic gornel o'r chwith a pheniad ar y postyn pellaf gan Ballisager yn taro'r postyn i'r ymwelwyr.

Wedi hanner awr daeth Cymru i mewn i'r gêm. Croesiad o'r dde gan Rhiannon Roberts yn canfod Ceri Holland ar y postyn pellaf, Holland yn rheoli'r bêl yn y cwrt ac yn ffugio sgoriwr Denmarc Bruun, cyn taro'r bêl i mewn i'r rhwyd. Gôl wych gan Holland a Chymru yn gyfartal.

Cyn yr hanner cafodd Hannah Cain a Rachel Rowe gyfleoedd ond dim byd i boeni Denmarc.

Cyfartal ar yr egwyl a Chymru'n  ddigon bodlon.

Cychwynnodd yr ail hanner yn araf, a daeth cyfle wedi 67 munud i Ddenmarc. Yr eilydd Amalie Vangsgaard yn canfod lle yn y cwrt ond yr ymosod wraig yn ergydio yn wyllt dros y trawst.  Munudau yn ddiweddarach Alice Griffiths a phêl hir o'r cefn i lwybr Hannah Cain, Cain drwodd ar y gôl ond ei ergyd yn mynd yn syth at y golwr.  Dyma Denmarc yn ennill y bêl ac o un pen y cae i'r llall, pêl wych gan Snerle rhwng amddiffyn Cymru a Vangsgaard 1 yr 1 yn erbyn Clark yn y gôl a ymosodwraig Juventus yn ergydio drwy goesau'r golwr i roid yr ymwelwyr ar y blaen. 20 eiliad rhwng cyfle Cain a Denmarc yn rhwydo!

Mi geisiodd Cymru a dod yn gyfartal ond cyn y diwedd y gêm yn gorffen ar nodyn isel. Sgoriwr Cymru Ceri Holland yn cael anaf drwg ac yn gorfod gadael y cae ar stretsiar ac yn edrych mewn tipyn o boen. Dim beth oedd ei angen â'r Ewros ar y gorwel. Cymru yn colli o 2-1 ond perfformiad addawol yn y brif ddinas.

Taith i Gothenburg i wynebu Sweden am yr ail dro yn yr ymgyrch oedd hi wedyn. Hon oedd y tro cyntaf ers i Gymru golli i Pele a Brasil yng Nghwpan y Byd 1958, i dîm o Gymru i chware yn y ddinas.

Roedd Rhian Wilkinson wedi gwneud newidiadau yn dilyn y gêm yn erbyn Denmarc. Esther Morgan yn dychwelyd am ei chap cyntaf ers 2023. Tra yn y gôl Safia Middleton-Patel yn dod i mewn i ennill ei thrydydd cap.  Fel oedd i'w ddisgwyl, Sweden yn creu cyfleoedd cynnar. Middelton-Patel yn arbed ergydion Rolfo a'r capten Asllani.

Yna rhediad gwych o ganol cae gan Rolfo yn canfod Johanna Rytting Kaneryd ond ergydiad yr asgell wraig fymryn heibio'r postyn. Cyn yr hanner cyfle euraidd i Sweden Blackstenius yn erbyn Gemma Evans, a phas gan Blackstenius i Kaneryd yn y cwrt. Yn ffodus i Gymru aeth ergydiad Kaneryd fodfeddi hebio'r postyn. A Chymru yn falch o gêm gyfartal di sgôr ar yr hanner.

Dechreuodd Sweden yr ail hanner fel y cyntaf. Peniad gan Blackstenius yn bell o'r targed, cyn ergydiad o bell gan Angeldahl yn cael ei harbed gan Middelton-Patel.  Ond wedi awr o chwarae daeth y gôl i Sweden cic gornel Angeldahl ac Magdalena Eriksson yn penio o 6 llath allan i roi'r tîm cartref ar y blaen.

Er i Gymru ildio nid aeth eu pennau lawr a 7 munud yn ddiweddarach daeth sioc. Gwaith da o'r cefn gan Hayley Ladd a phas i Rachel Rowe. Yna pêl wych ymlaen gan Rowe rhwng dwy amddiffynnwr Sweden yn canfod Hannah Cain yn y cwrt.  Cain yn mynd heibio'r golwr a'i hergyd yn taro'r postyn ac i mewn i'r rhwyd. Cymru yn gyfartal yn Gothenburg. Doedd neb yn disgwyl hynny!

Er yn gyfartal doedd hynny ddim yn ddigon i dîm Rhian Wilkinson. Cyfle gwych i Ffion Morgan ond ei ergyd gwan yn y cwrt cosbi yn syth at Falk yn y gôl i Sweden. Yna Hannah Cain a chyfle ar yr hanner foli wedi pêl letraws wych gan Morgan.

Cofis yn cicio i'r gornel ac ennill y lein, ond amddiffyn Penybont yn dal. Newid i dacteg gyffredin erbyn hyn, a Devine yn rhoddi cic letraws, a'r asgellwr Gethin Long yn cael profiad 'a bery am byth' gan durio yn y gornel. Tad balch arall, Dai Long, cyn faswr Bethesda lawer dydd yn ôl. Trosiad gwych gan Aled Jones. **13-5.**

Oedd y freuddwyd yn troi'n ffaith? Yn yr eiliadau yma roedd arwyddion o ddiffyg disgyblaeth gan Benybont; ffactor oedd yn ymledu fel yr âi'r gêm ymlaen. Am 20 munud o rygbi! Roedd un elfen o'r gêm yn creu poendod i'r Cofis. Gwastraffwyd ambell i sefyllfa dda gan golli'r bêl yn y llinell oddi ar eu tafliad eu hunain. Ildiwyd tair llinell yn olynol.

Caernarfon yn camsefyll wrth amddiffyn yn eu parth 25m. Cic am y pyst trosodd. **13-8.**

Yna, wedi hanner awr, y Cofis yn ildio cais. Pasio slic ar hyd y llinell a'r tacl yn aflwyddianus yng nghanol cae. Cais yn agos i'r pyst , a throsiad hawdd. Y Cofis ar ei hôl hi am y tro cyntaf. **13-15.**

Dyma'r prawf. Wedi 35 munud, y prawf fod hyder di-bendraw yn uned Caernarfon. Y rheng ôl yn ennill y bêl ar y llawr, bwydo Aled Jones ac yntau'n rhoi cic bwt dros amddiffyn Penybont oedd wedi symud ymlaen mewn llinell. Yr asgellwr yn codi'r bêl yn lân cyn bwydo Tom Divine am gais crefftus a deallusol gan Aled o'r sefyllfa o'i flaen, ac yntau'n trosi'n llwyddiannus. **20-15.**

Yn y funud olaf cic wych i'r gornel a gobaith o ymestyn y fantais, ond eto colli'r llinell drwy dafliad gwallus.

Am hanner o rygbi. Pwy fuasai'n gwanhau gyntaf yn y gwres? Pawb ar bigau drain. **20-15.**

Dau funud i mewn i'r ail hanner, a cherdyn melyn i rif 8 Penybont am dacl oddi ar y bêl a rwystrodd ymosodiad bygythiol gan Gaernarfon. Mantais i'r Cofis? Na, o fewn 2 funud camddealltwriaeth yn system amddiffynol canol cae, cic drwodd a chefnwr Penybont drosodd o dan y pyst. **20-22**.

Beth fuasai'r ymateb? Dipyn o nerfusrwydd yn ymddangos. Yna Penybont yn taro eto'n effeithiol. Gyda blaenwyr Caernarfon yn ennill y frwydr yn y sgrymiau, a safon y gwasanaeth o'r leiniau bellach yn fodlon, trodd Penybont i roddi eu ffydd yn eu cefnwyr. Wedi 54 o funudau, clasur o gais ganddynt. Ennill y llinell a phasio llyfn ar gyflymder ar hyd y llinell, a'r asgellwr trosodd. Trosiad llwyddiannus. **20-29**.

Ai dyma'r eiliad dyngedfennol? Faint oedd ar ôl yn nhanc y Cofis? Y ddau dîm yn eilyddio. Traed ffres. Torchi llewys. Ar yr awr, Aled yn trosi cic gosb. Pob pwynt i'w gymryd rwan. **23-29**.

Yna, llygedyn o obaith. Diffyg disgyblaeth i chwaraewr allweddol Penybont – y cefnwr – am 'gega' gyda'r dyfarnwr. Cafwyd 5 munud o lif o ymosodiadau gan Gaernarfon. Cadw'r meddiant, gyrru ymlaen; ond amddiffyn arwrol gan Benybont. Oedd y cyfle olaf, fel y cloc, yn llifo hebio? Yna, un gwthiad olaf, creu bwlch ar y dde, a Tom Devine trosodd. Distawrwydd llethol ond Aled eto yn sicr ei drosiad. **30-29**.

Ond roedd ambell i fwian yn dod gan gefnogwyr Caernarfon. Popeth yn stopio. Oedd y cais am ei nacau? Na, cywir y brotest. Roedd rhai wedi sylwi fod rhif 7 Penybont, fel roedd Divine yn turio, wedi dilyn trwodd yn giaidd â'i goes. Cerdyn melyn yn syth. Pum munud i fynd? Dyma bum munud fydd yn mynd i lawr yn hanes y Clwb. Llif ar ôl llif o grysau Penybont yn llifo ymlaen. Amddiffyn arwrol, yn aml gyda blaen bysedd yn unig. Peidio ag ildio na thir na chic gosb. Y cloc yn troi'n goch. 2, 3, 4 munud drosodd. Yr amddiffyn yn dal. Penybont yn ceisio creu sefyllfa am gyfle cic adlam. Daeth y cyfle wedi 6 munud ychwanegol. O 35 llath, taro'r bêl yn lân ac uchel. Am ffordd i golli! Ond na! Yn y llathenni olaf, y bêl yn gwyro heibio. Roedd y Cofis wedi llwyddo mewn gêm a gododd ysbryd llawer am y gêm, bod gobaith yn ei gwreiddiau o hyd.

Braint i gefnogwyr y ddau dîm – a'r gynulleidfa deledu – oedd bod yn dystion i ffeinal go iawn gan unigolion yn rhoddi 100%. Gyda balchder yn eu Clwb a chyda chydnabyddiaeth i lawer a gyfrannodd at ddatblygiad y Clwb dros y blynyddoedd, y camodd y capten Dafydd Thirsk – seren y gêm – ymlaen i dderbyn y cwpan. Ac wrth gwrs, roedd y ffaith fod y gêm ar y teledu'n cryfhau'r achlysur ac yn ymestyn proffil y Clwb. Diolch am gael bod yno. Dyma neges glir yn cyhoeddi ym myd rygbi Cymru fod y rhanbarth yma'n haeddu mwy o sylw gan yr Undeb yn natblygiad y gêm. Fel y canodd y cefnogwyr, rydym ni 'yma o hyd'.

Yn y cyswllt yma, llongyfarchiadau i aelodau'r garfan o Fro Eco'r Wyddfa a brofodd y wefr a'r achlysur o lwyddiant yn y Stadiwm Genedlaethol. Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain.

I gwblhau'r adroddiad, dyma garfan lawn Caernarfon ar y diwrnod,
1 Tomos Gwynfaes, 2 Liam Leung, 3 Armando Morgan*, 4 Mac Jones*, 5 Nathan Pycroft*, 6 Bedwyr Jones*, 7 Dafydd Thirsk, 8 Mei Parry, 9 Iwan Evans, 10 Tom Jarman, 11 Carwyn Roberts, 12 Iolo Evans, 13 Thomas Devine, 14 Gethin Long, 15 Aled Jones*.
Eilyddion: 16 Ray Lear, 17 Rob Jones, 18 Samiwel Williams*, 19 Josh Eden, 20 Iwan Roberts, 21 Guto Pierce*, 22 Rhodri Jones *, 23 Elis Jones*.
Teithio wrth Gefn: Caio Price*, Dan Williams*, Tomos Huw Ilan Davies.
* yn dynodi cysylltiad cryf â dalgylch *Eco'r Wyddfa*.

Mi gafodd Sweden cyfleoedd cyn diwedd y gêm Janogy a pheniad ar draws wyneb y gôl o groesiad Kaneryd. Yna Middelton-Patel ac arbediadau o ergydion Blackstenius a Julia Zigotti.

Y gêm yn gorffen yn gyfartal 1-1 am ganlyniad a pherfformiad gan y merched. Mae honno yn un o ganlyniadau gorau yn hanes tîm y merched. Er bod Cymru ar waelod y grŵp wedi 4 gêm mae'r perfformiadau yn edrych yn bositif iawn cyn yr Ewros.

Yn ystod y mis fu'r tîm Merched o Dan 19 yn chwarae yn Llanelli mewn grŵp Rhagbrofol ar gyfer Pencampwriaethau Ewro Dan 19 yng Ngwlad Pŵyl dros yr haf.

Roedd y merched yn Adran A wedi iddynt ennill dyrchafiad o Adran B Fis Tachwedd. Collodd Cymru i Ffrainc o 1-0 yn y gêm agoriadol. Cyn ennill o'r un sgôr yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon yn ei ail gêm, Mared Griffiths ar gôl fuddugol. Daeth drama yn y gêm olaf yn erbyn Serbia. Cic o'r smotyn wedi 90 munud gan Olivia Francis yn achub pwynt i Gymru wedi Serbia fynd ar y blaen o gic gornel. Cymru yn gwneud yn wych i orffen yn ail yn ei grŵp. Ffrainc yn gorffen ar y brig ac yn ennill ei lle yn y rowndiau terfynol yng Ngwlad Pŵyl.

***Elgan Rhys Jones***

# Cychwyn ymgyrch Cwpan y Byd 2026

Fis Mawrth fe ddechreuodd ymgyrch dynion Cymru i gyrraedd Cwpan y Byd 2026 yn yr UDA, Canada a Mecsico.

Croesawon nhw Kazakstan i Stadiwm Dinas Caerdydd i ddechrau. Dyma ddau dîm oedd erioed wedi wynebu ei gilydd. Gyda Kazakstan yn safle 110fed yn y byd a heb ennill mewn 12 gêm, byddai Cymru yn disgwyl cychwyn da i'r ymgyrch.

A chychwyn da a fu. Ar ôl 9 munud, fe roddodd Daniel James y tîm cartref ar y blaen. Roedd Cymru yn dal i bwyso ond methu cael y cyfle euraidd i adeiladu ar y sgôr. Yna allan o nunlle, fe ennillodd Kazakstan gic o'r smotyn. Roedd Karl Darlow o fewn trwch blewyn o'i arbed ond fe ddaeth yr ymwelwyr yn gyfartal. Roedd Cymru yn mynd i'r egwyl ar binau braidd.

Fe gafodd Cymru gychwyn gwych i'r ail hanner wrth i Ben Davies adfer blaen Cymru. Un o greigiau Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Rhaid dweud mi oedd Cymru fodd bynnag yn cael ychydig o drafferth i reoli yn llwyr ac roeddent yn methu sawl cyfle. Doedd hi ddim yn hawdd. Rhaid hefyd canmol gôl geidwad Kazakstan oedd chwarae teg wedi gwneud sawl arbediad da.

Yna yn sicrhau'r fuddugoliaeth i Gymru i ddechrau'r ymgyrch fe sgoriodd Rabbi Matondo gyda 90 munud ar y cloc. Ochenaid o ryddhad i Gymru a 3 phwynt.

Taith oddi cartref oedd yn dilyn i Gymru i Ogledd Macedonia. Roedd awyrgylch emosiynol yn y stadiwm ar ddechrau'r gêm wrth i bawb gymryd rhan mewn munud o dawelwch er cof am y rhai a gollodd eu bywydau mewn tân mewn clwb noson ychydig tu allan i'r brifddinas Skopje wythnos yn gynharach.

Gêm digon di-fflach oedd hi gyda naill dîm na'r llall wir yn edrych fel sgorio. Er bod Cymru yn dominyddu meddiant am gyfnodau hir doedd gôl-geidwad Gogledd Macedonia ddim yn cael ei brofi digon. Mi oedd yr awyrgylch dipyn mwy cyffrous na'r pêl-droed ar y cae. Gyda beth oedd yn edrych fel gêm oedd am orffen yn ddi-sgôr daeth camgymeriad anffodus gan Joe Allen ac o ddim byd, roedd y tîm cartref ar y blaen. Oedd hi ar ben? Ar ôl i Ogledd Macedonia sgorio, roedd Cymru wedi dod o hyd i ryw dân ychwanegol yn eu boliau. Roedd y cloc yn tician a phethau yn edrych yn llwm. Yn munudau olaf y gêm fe ddaeth David Brooks i'n hachub. Fe sgoriodd gôl a oedd yn teimlo fel ei fod wedi mynd mewn i'r rhwyd mewn *'slow motion'.* Roedd wynebau cefnogwyr Cymru wedi mynd o rwystredigaeth i orfoledd o fewn eiliadau! Y sgôr terfynol yn Skopje felly yn 1-1.

Gyda Chymru dal heb golli o dan arweinyddiaeth Craig Bellamy, mae pethau yn edrych yn gadarnhaol ar gyfer yr ymgyrch i geisio cyrraedd Cwpan y Byd yn 2026. Bydd Cymru yn wynebu Liechtenstein adref cyn trip wedyn i Wlad Belg ym mis Mehefin.

***Mared Rhys Jones***

ChwaraeonECO

# Cefnogaeth Marathon Eryri i athletwyr ifanc lleol

**Yn 2025, bydd Marathon Eryri'n cefnogi nifer o athletwyr ifanc yn eu hymgais i fod y gorau yn eu dewis chwaraeon. Mae dau o Lanrug, mewn dau faes gwahanol iawn, wedi derbyn cefnogaeth ariannol ar gyfer eleni.**

**Nofiwr Addawol**

Un o'r rhai sy'n derbyn nawdd yw'r nofiwr dwy ar bymtheg oed Dion Edwards o Lanrug, sy'n gwneud enw iddo'i hun wrth gynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Yn ddiweddar, bu Dion yn cystadlu ym Mhortiwgal. Dyma ei gystadleuaeth dramor gyntaf gyda Thîm Cymru, gan rasio yn y cystadlaethau pili-pala a dull rhydd.

Nid yw'r nofiwr dawnus, sydd ag angerdd am y ddwy ddisgyblaeth, yn ddieithr i foreau cynnar a sesiynau hyfforddi dwys. Er mwyn perffeithio ei sgiliau, mae'n rhaid iddo fynd ar deithiau rheolaidd i Abertawe, yr unig leoliad yng Nghymru sydd â phwll 50 metr, gan sicrhau ei fod yn gallu hyfforddi yn yr amodau sy'n ofynnol ar gyfer cystadlaethau haen uchaf.

*"Mae'n ymrwymiad, ond mae'r cyfle i rasio ar y lefel uchaf yn bwysig,"* meddai Dion, sy'n ychwanegu bod y profiad ym Mhortiwgal yn heriol a chyffrous.

Mae ymroddiad Dion yn dwyn ffrwyth. Nid yn unig y bu'n cynrychioli Cymru gyda balchder ym Mhortiwgal, ond mae bellach wedi cymhwyso ar gyfer Pencampwriaethau Prydain, oedd yn cael eu cynnal yn Llundain y Pasg hwn. Mae hyn yn garreg filltir arwyddocaol yn ei yrfa ifanc wrth iddo anelu at barhau i ddringo rhengoedd y byd nofio.


*"Rwy'n gyffrous iawn fy mod wedi cymhwyso ar gyfer Pencampwriaethau Prydain,"* meddai Dion, wrth edrych ymlaen at y gystadleuaeth.




*"Mae hi wedi bod yn freuddwyd i gynrychioli fy ngwlad, a nawr mae'r cyfle i gystadlu yn erbyn goreuon y wlad yn anhygoel."*

Gyda'i benderfyniad a'i egni, mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair i'r seren newydd hon ym myd nofio Cymru, pob lwc i ti Dion!

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn noddi Dion Edwards yna mae'n bosibl cysyllytu drwy ebost; dion.peris07@gmail.com



## DAL I REDEG

Ydi, mae tymor y rasys mynydd wedi ail-gychwyn, a mwy nag erioed yn fodlon – ac yn mwynhau – herio'r bryniau lleol. Ddechrau Ebrill, cynhaliwyd Ras Moel Wnion, o Rachub, gydag elw'r ras yn cael ei rannu rhwng Ysgol Llanllechid a Thîm Achub Mynydd Ogwen. Roedd nifer dda wedi teithio cryn bellter i rasio, a chafwyd tywydd heulog a sych, er bod y gwynt yn fain ar y copaon. Gwnaeth hogia lleol bro'r 'Eco' eu marc ar ddechrau'r tymor, a gobeithio y daw mwy o lwyddiannau i'w rhan fel yr â'r tymor yn ei flaen.

Daeth Deri Hockley, Llanberis yn 13eg yn y ras ac yn 1af dan 20 oed. Cipiwyd dwy wobr yn yr adran i redwyr dros 40 oed: Gareth W. Hughes, Llanberis yn gyntaf (3ydd yn y ras i gyd) ac Owen Hunt Williams, Deiniolen yn 2il (4ydd yn y ras). Yn 11fed yn y ras roedd Dyfed Thomas, Llanrug, ac yn 1af dros 50 oed.

Mae Rasys Nos Fawrth eisoes wedi cychwyn, gyda Ras Moel Tryfan a Ras Mynydd y Cilgwyn wedi denu dros 170 o redwyr yn adran yr oedolion, heb sôn am nifer cynyddol yn adran y plant a'r ieuenctid. Roedd problemau parcio yn amlwg yn Y Fron ar gyfer y ddwy ras gyntaf, ac o bosib y bydd hynny'n wir am rai o'r rasys eraill hefyd. Pen Dinas yn y Nant, a Moel Eilio (bach) fydd y rhai lleol yn y gyfres.

A bydd ras draddodiadol Moel Eilio yn cael ei chynnal ar y 3ydd o Fai, gyda holl elw'r ras, fel arfer, yn mynd i Tenovus Gofal Cancr.



## Beiciwr Mynydd Lawr-allt

Bydd cyllid gan Marathon Eryri yn helpu Osian Morris yn ei ymgais i gystadlu ar y lefel uchaf mewn beicio mynydd lawr allt.

Mae Osian, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Llanrug, yn Ysgol Brynrefail ar hyn o bryd, ac yn ei flwyddyn olaf TGAU. Yn dilyn ei ganlyniadau a'i agwedd trwy dymor rasio 2024, cafodd ei adnabod gan British Cycling fel *"a hardworking, skilful bike racer who has the potential to develop into a successful world class athlete in the future".* Mae'n un o bedwar bachgen o'r Deyrnas Unedig sydd wedi ei ddewis i ymuno â'r National Gravity Academy yn 2025.

Mae'r tymor rasio 2025 eisoes wedi cychwyn, gyda'r ras gyntaf ym Mhortiwgal ym mis Ebrill. Mae ganddo flwyddyn brysur o'i flaen, gyda gofyn iddo gystadlu fwyfwy yn Ewrop y flwyddyn hon er mwyn cychwyn hel pwyntiau erbyn symud i fyny i'r categori Junior yn 2026, sef y categori cyntaf lle mae'n bosib cael crys gan British Cycling i gystadlu yng nghyfres DH World Cup.

Yn ogystal â gweithio tuag at ei arholiadau, ymarfer ei feicio lawr allt, ac ymarfer yn y gampfa, mae hefyd yn gweithio yn siop beics *Framed Bicycles* yn Llanberis er mwyn datblygu ei sgiliau trwsio a chynnal.




ISSN 2516-7235
9 772516 723001